# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER, 22 TACHWEDD, 2023 am 2.00 o'r gloch yp** | **WEDNESDAY, 22 NOVEMBER, 2023 at 2.00 pm** |
| **CYFARFOD HYBRID – YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **HYBRID MEETING – COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THROUGH ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor — Mrs. Mairwen Hughes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**

Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Euryn Morris, John I Jones, Dylan Rees **(Cadeirydd/Chair),** Margaret M Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Paul Ellis, Jeff Evans, Derek Owen

**Llafur Cymru/Welsh Labour**

Pip O'Neill

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Sedd Wag/Vacant Seat - (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Gillian Thompson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Sedd Wag/Vacant Seat -(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cale eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 17 Hydref, 2023.

**4 CYNLLUN STRATEGOL ADNODDAU AC AIL-GYLCHU - 2023-2028** (Tudalennau 11 - 40)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

**5 ADRODDIAD BLYNYDDOL PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL GWYNEDD AC YNYS MÔN: 2022/23** (Tudalennau 41 - 62)

Cyflwyno adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

**6 RHAGLEN FFYNIANT BRO YNYS MÔN - ADRODDIAD CYNNYDD** (Tudalennau 63 - 96)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**7 BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 97 - 104)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2023

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Non Dafydd, Jeff M Evans, John Ifan Jones, Euryn Morris, Pip O'Neill, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor a Sonia Williams<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Carwyn Jones – Aelod Portffolio dros Fusnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid (ar gyfer eitem 6);<br>Y Cynghorydd Gary Pritchard – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio dros Wasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai (ar gyfer eitem 5);<br>Y Cynghorydd Alun Roberts – Aelod Portffolio dros Wasanaethau Oedolion (ar gyfer eitem 5). |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (ar gyfer eitem 5),<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid (ar gyfer eitem 6),<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth) (SOJ) (ar gyfer eitem 4),<br>Rheolwr Rhaglen (EB) (ar gyfer eitem 6),<br>Rheolwr Sgriwtini (AD),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Arweinydd y Cyngor – Y Cynghorydd Llinos Medi.<br><br>Y Cynghorydd Derek Owen.<br><br>Y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | **Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Neville Evans – Aelod Portffolio dros Hamdden, Twristiaeth ac Arforol;<br>Y Cynghorydd Nicola Roberts – Aelod Portffolio dros Gynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newydd Hinsawdd;<br>Y Cynghorydd Dafydd R Thomas – Aelod Portffolio dros Briffyrdd, Eiddo a Gwastraff. |

Ms Helen Kilgannon (Rheolwr Rhanbarthol – Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru) (ar gyfer eitem 4).

Mr Jon Zalot (Swyddog Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol – Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru) (ar gyfer eitem 4).

Ms Catrin Roberts – Pennaeth Cyd-weithredu Rhanbarthol (ar gyfer eitem 5).

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodir uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorydd Euryn Morris fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem 5 – Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol – Adroddiad Blynyddol:2022/2023.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 19 Medi, 2023 yn rhai cywir.

**4 GWASANAETH CYNLLUNIO AT ARGYFWNG RHANBARTHOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL: 2022/2023**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod gan y Cyngor ddyletswyddau cynllunio ac ymateb brys o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Mae'r Cyngor yn brif ymatebwr ac yn cyflawni ei rwymedigaethau trwy gydweithio ag Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru trwy Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru. Dywedodd, yn dilyn ymgynghoriad a chadarnhad trwy'r broses wleidyddol ym mhob Awdurdod Lleol, bod swyddogaethau Cynllunio at Argyfwng pob un o'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru wedi'u cyfuno'n un gwasanaeth o dan gytundeb rhwng awdurdodau ers 2014. Ychwanegodd, yn ynys gyda dwy bont dros y Fenai, ei bod yn bwysig bod y Cyngor hwn yn gwbl ymroddedig yn y Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol fel ei fod yn mynd i'r afael ag unrhyw argyfwng a allai ddigwydd ar yr Ynys a bod y gwasanaethau brys yn bresennol mewn unrhyw ddigwyddiad. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at yr Adroddiad Blynyddol a nododd ei fod yn rhoi sicrwydd bod y Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol yn wasanaeth gwydn a bod y Cyngor hwn yn cydweithio'n llawn â'r gwasanaeth.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y Pwyllgor y prif faterion a ganlyn:-

- Codwyd cwestiynau ynghylch y risgiau allweddol sy'n wynebu'r ynys a pharodrwydd y Cyngor o ran argyfyngau yn y dyfodol. Ymatebodd y Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth) gan ddweud y câi risgiau eu nodi a'u rheoli'n effeithiol yn ystod trafodaethau mewn Fforwm Gwydnwch a gynrychiolir gan yr Awdurdod. Nododd fod yna Gofrestr Risg Genedlaethol a bod y Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol a'r Cyngor yn cyfrannu at adnabod unrhyw risgiau posibl. Ychwanegodd mai toriadau mewn pŵer, stormydd, seibr-ddiogelwch, ac effeithiau ar wydnwch pont Menai a phont Britannia oedd y prif risg allweddol. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod o'r farn bod yr Awdurdod yn barod ar gyfer unrhyw ddigwyddiad, gan fod y lefelau llywodraethu a chyfranogiad yn eu lle; fodd bynnag, roedd yn dibynnu ar gefnogaeth sefydliadau brys eraill. Mynegodd mai cadernid y ddwy bont a'r posibilrwydd y gallai'r ddwy bont gael eu cau'r un pryd oedd y prif bryderon, gan y gallent beri problemau mawr pe ceid argyfwng ar yr Ynys. Dywedodd ei bod yn bwysig parhau i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i gydnabod bod rhaid i'r ddwy bont fod yn wydn ac y gellid dibynnu arnynt.

- Cyfeiriwyd at y risg o danau gwyllt yng Nghoedwig Niwbwrch oherwydd y tywydd sych, gan mai dim ond un briffordd sydd trwy bentref Niwbwrch ac allan ohono a dim ond un maes parcio yn y cyffiniau. Codwyd cwestiynau ynghylch pa drefniadau oedd ar waith i gefnogi'r trefniadau cynllunio at argyfwng i fynd i'r afael â thanau gwyllt posibl yn yr ardal ac i ba raddau yr ymgynghorwyd â phartneriaid allanol. Ymatebodd y Prif Weithredwr drwy ddweud mai Cyfoeth Naturiol Cymru oedd yr awdurdod cyfrifol ar gyfer Coedwig Niwbwrch a bod ganddynt gynllun ymateb brys ar waith. Nododd nad oedd y Cyngor wedi bod yn rhan o unrhyw ymarfer brys gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Dywedodd yr Aelod Lleol dros Niwbwrch fod ganddo bryderon nad oedd yr Awdurdod Lleol yn rhan o unrhyw broses ymarfer brys gyda Chyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â Choedwig Niwbwrch. Dywedodd y Cadeirydd y dylai'r Gwasanaeth Tân ac Achub, hefyd, fod yn ymwybodol o danau gwyllt posibl. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r mater yn cael ei gyfeirio i'w drafod gyda Chyfoeth Naturiol Cymru maes o law.

- Cyfeiriwyd at y canllawiau i Aelodau Etholedig oedd ynghlwm wrth yr adroddiad. Codwyd cwestiynau ynghylch y cynlluniau oedd ar waith i wneud yn siŵr bod yr Aelodau'n ymwybodol o'u rôl. Ymatebodd y Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth) drwy ddweud fod cwrs e-ddysgu ar gael drwy'r pwll dysgu i Aelodau Etholedig ei weld. Nododd y gellid trefnu Sesiwn Briffio gydag Aelodau Etholedig, os oedd angen. Dywedodd yr Is-gadeirydd y cyfeirir yn Llawlyfr yr Aelodau Etholedig at rif ffôn pencadlys y Cyngor pan fo aelod o'r cyhoedd yn dymuno ffonio mewn argyfwng. Dywedodd fod trigolion wedi bod yn cwyno nad oeddynt yn gallu cael ateb wrth ffonio rhif ffôn pencadlys y Cyngor. Ymatebodd y Prif Weithredwr ei fod yn derbyn y rhwystredigaeth pan nad yw pobl yn gallu cael ateb wrth ffonio'r Cyngor. Pwysleisiodd bwysigrwydd bod aelodau etholedig yn cyfeirio unrhyw gŵyn o'r fath ynglŷn â'r system ffôn yn syth at swyddogion perthnasol, yn unol â'r canllawiau a gyflwynwyd yn flaenorol. Dywedodd fod y Cyngor, ar hyn o

bryd, yn y broses o gael system ffôn newydd a'r gobaith oedd y byddai'n gwella gwaith rheoli a monitro galwadau. Cydnabu fod yna gyfnodau prysur yn y galw am rai gwasanaethau yn y Cyngor h.y. Budd-daliadau Tai a Gwasanaethau Tai. Ychwanegodd mai'r Gwasanaethau Argyfwng, fwyaf tebyg, fyddai'n arwain ar unrhyw argyfwng pe ceid un ac y byddai'r Awdurdod yn rhan o'r broses ymateb trwy'r Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng. Ni fyddai'r system ffôn bresennol yn cael unrhyw effaith ar allu'r Cyngor i ymateb i unrhyw argyfwng

- Cyfeiriwyd at y trafodaethau diweddar ynghylch symud lleoliad Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru. Codwyd cwestiynau ynghylch a oedd Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru yn rhan o Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru, yn enwedig pan fu trafodaeth yn y cyfarfod hwn ynghylch gwydnwch y pontydd. Ymatebodd Rheolwr Rhanbarthol Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru bod Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru yn wasanaeth arweiniol iechyd a'u bod yn trafod sut maent yn ymateb i unrhyw argyfwng lle bod angen Ambiwlans Awyr. Dywedodd yr Aelod Portffolio dros Wasanaethau Oedolion y câi Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru ei drafod mewn cyfarfodydd gyda'r Bwrdd Iechyd ond oherwydd y tywydd garw rhaid ystyried nad yw'r Ambiwlans Awyr yn gallu fforddio eu gwasanaethau. Holwyd a fyddai Ysbytai Penrhos Stanley a Chefni yn cael eu cynnwys mewn unrhyw broses frys pe ceid digwyddiad mawr a'r ddwy bont ar gau a dim Gwasanaeth Ambiwlans Awyr ar gael. Cyfeiriwyd, hefyd, at y ffaith fod nifer y Llongau Mordeithio oedd yn ymweld â'r Ynys wedi cynyddu ac y rhagwelid y byddai 92 o Longau Mordeithio'n ymweld yr haf nesaf. Nododd y Prif Weithredwr y byddai Awdurdod Porthladd Caergybi yn arwain ar unrhyw argyfwng yn y Porthladd, fel rhan o'u cynlluniau argyfwng. Ymatebodd Rheolwr Rhanbarthol Gwasanaethau Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru gan ddweud fod prosesau yn eu lle i hyfforddi partneriaid amlasiantaethol ac ymarfer gyda nhw mewn perthynas ag unrhyw argyfwng ar yr Ynys. Dywedodd y Prif Weithredwr mai'r Gwasanaeth Ambiwlans, y Bwrdd Iechyd a Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru a benderfynai pryd roedd angen Ambiwlans Awyr ar gyfer unrhyw argyfwng. Holwyd a gysylltwyd ag Awyrlu Brenhinol y Fali i ofyn eu cymorth pe ceid argyfwng ar yr Ynys. Ymatebodd y Rheolwr Rhanbarthol y ceid trafodaeth yn y Gwasanaethau Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol ynghylch canolfannau'r Awyrlu Brenhinol, ond nid oedd yn ymwybodol y byddai gan Awyrlu Brenhinol y Fali unrhyw ddarpariaeth i gynorthwyo pe ceid argyfwng. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai angen cymorth a chaniatâd Llywodraeth Cymru/Llywodraeth y DU i ddefnyddio'r Lluoedd Arfog/ yr Awyrlu Brenhinol (gyda phroses benodol i'w dilyn).

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod angen cynnwys gwybodaeth leol ychwanegol yn yr Adroddiad Blynyddol gan fod yr adroddiadau'n canolbwyntio ar bersbectif rhanbarthol. Roedd angen cynnwys materion penodol yn ymwneud ag Ynys Môn a bod y Pwyllgor hwn yn gallu gweld sut roedd yr Awdurdod yn ymateb i unrhyw argyfwng a gyfyd. Ymatebodd Rheolwr Rhanbarthol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng Cynghorau Gogledd Cymru gan ddweud y gellid cynnwys gwybodaeth am ymateb brys yr Awdurdod mewn

adroddiadau’r dyfodol fel bod modd i’r Pwyllgor hwn allu cymharu â gweddill y Rhanbarth.

**PENDERFYNWYD nodi cynnydd gwaith Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru 2022/23.**

**CAMAU GWEITHREDU:**

- **Trefnu Sesiwn Briffio i Aelodau Etholedig ynghylch eu rôl o fewn y Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng.**

## 5 Y BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL: 2022/2023

Cyflwynwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd yr Aelod Portffolio dros Wasanaethau Oedolion mai nod Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru oedd gweithio ar y cyd ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i helpu i gefnogi cymunedau gwydn a sicrhau gwasanaeth di-dor i unigolion yr oedd angen gofal a chymorth arnynt. Nododd mai dyma Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru am 2022/23, fel oedd yn ofynnol yn Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yr oedd pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ei baratoi, ei gyhoeddi ac yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr adroddiad wedi'i osod yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cwblhau'r Adroddiad Blynyddol. Roedd yr Adroddiad Blynyddol yn amlygu'r gwaith oedd wedi ei gyflawni’n rhanbarthol ac yn isranbarthol gyda'r Cynllun Ardal, a nodai'r Cynllun Awtistiaeth, y Cynllun Gofalwyr, y Cynllun Gofalwyr Ifanc, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc a'r Strategaeth Anawsterau Dysgu. Nododd, hefyd, y canolbwyntiwyd ar anghenion plant a phobl ifanc yng Ngogledd Cymru ac Ynys Môn. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y broses ariannu cyfalaf.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y Pwyllgor y prif faterion a ganlyn:-

- Codwyd cwestiynau ynghylch rôl a phwrpas y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Ymatebodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gan ddweud fod y broses lywodraethu’n gymhleth yn y Bwrdd Partneriaeth. Nododd y gellid egluro rôl a phwrpas y Bwrdd Partneriaeth mewn Sesiwn Briffio i Aelodau Etholedig.

- Codwyd cwestiynau ynghylch y berthynas rhwng Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Ymatebodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol drwy ddweud y câi'r ddau adroddiad eu hymgorffori yn ei gilydd gan fod y cyllid cyfalaf i ariannu llawer o brosiectau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei ariannu'n rhanbarthol.

- Codwyd cwestiynau ynglŷn â rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wrth hwyluso sefyllfa nifer uchel o gleifion oedd yn methu cael eu rhyddhau o Ysbyty Gwynedd i fynd adref i'w preswylfa barhaol oherwydd nad oedd darpariaeth Gofal ar eu cyfer. Ymatebodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gan ddweud bod rhaid i'r Awdurdod Lleol drafod anghenion claf, y mae angen pecyn gofal arno, gyda'r darparwyr Gofal yn dilyn asesu'r claf hwnnw. Nododd bod perthynas waith agos rhwng y Bwrdd Iechyd ac Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol ym Môn i ddarparu gofal mewn Cartrefi Preswyl cyn i glaf allu dychwelyd i'w brif breswylfa. Roeddynt, hefyd, yn trafod gyda theulu'r claf i ganfod a allent gynorthwyo i ofalu amdano cyn rhoi pecyn gofal yn ei le. Dywedodd fod yna broblem recriwtio genedlaethol yn y sector gofal gan nad oedd y tâl yn ddeniadol i bobl ymgeisio am swyddi yn y sector hwnnw. Dywedodd mai parhau fyddai problemau parhaus cleifion na allant gael eu rhyddhau o ysbytai, oni byddai Llywodraeth Cymru'n mynd i'r afael â'r mater hwn.

- Codwyd cwestiynau ynghylch i ba raddau yr oedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cyflawni ei flaenoriaethau allweddol yn ystod 2022/2023 a beth oedd blaenoriaethau allweddol y Bwrdd am 2023/2024. Ymatebodd y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol gan ddweud ei bod yn hyderus bod y Bwrdd Partneriaeth wedi cyflawni ei flaenoriaethau allweddol yn ystod 2022/2023 ac amlygodd i'r Pwyllgor y prosesau llywodraethu o ran y cyllid cyfalaf a dderbyniwyd tuag at y prosiectau yn y Bwrdd. Dywedodd ei bod o'r farn nad oedd y Bwrdd wedi rhoi'r flaenoriaeth ddyladwy i'r gwasanaethau plant yn y blynyddoedd blaenorol. Ychwanegodd fod yr Awdurdod hwn wedi gwneud gwaith sylweddol yn y gwasanaethau plant i godi proffil a phwysigrwydd y darpariaethau i blant ar draws Gogledd Cymru. Roedd y Bwrdd wedi rhoi dros £7 miliwn tuag at wasanaethau plant ar draws Gogledd Cymru ac roedd enghreifftiau o'r gwaith i'w gweld yn yr adroddiad. Roedd, hefyd, wedi cyhoeddi Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad a Chynllun Ardal Rhanbarthol i lunio'r gwaith ar draws Gogledd Cymru. Holodd yr Is-Gadeirydd a fu gwendid ym mhroses bresennol y Bwrdd o ran rôl craffu'r gwahanol Awdurdodau Lleol. Nododd fod yr Awdurdod hwn wedi sefydlu Panel Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol. Ymatebodd y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol gan ddweud mai Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru oedd y mwyaf o'r Byrddau Partneriaeth yng Nghymru, gyda chwe Awdurdod Lleol, a'r Bwrdd Iechyd mwyaf yng Nghymru, ond roedd yn derbyn fod lle i wella o ran y rôl Craffu. Cyfeiriodd yr Is-Gadeirydd at y Gwasanaethau Oedolion a dywedodd fod yr Awdurdod hwn wedi sefydlu Tîm Adnoddau Cymunedol. Gofynnodd a oedd gan Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru brosiect tebyg yn eu hawdurdodau. Ymatebodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol trwy ddweud fod gan yr Awdurdodau Lleol eraill, hefyd, brosiectau tebyg yn eu hawdurdodau ac y câi arferion da eu rhannu rhwng y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi deall y gwaith y mae angen i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei wneud a'i gadw mewn cof.**
- **Bod y Pwyllgor yn nodi'r gwaith a'r cynnydd yn 2022/23 ar y meysydd gwaith sy'n symud ymlaen drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.**

**GWEITHRED: Trefnu Sesiwn Briffio i Aelodau Etholedig ar amlinellu rôl a phwrpas y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.**

## 6 STRATEGAETH CYFRANOGIAD Y CYHOEDD: 2023/2028

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd yr Aelod Portffolio dros Fusnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid bod rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gynhyrchu Strategaeth Gyfranogi sy'n nodi sut y câi pobl leol eu hannog i gymryd rhan ym mhroses benderfynu'r Cyngor. Nod y strategaeth oedd annog pobl i gymryd rhan ym musnes y Cyngor ac ychwanegu at lwyddiant y Cyngor wrth ymgysylltu â thrigolion fel y cydnabyddid gan Archwilio Cymru. Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori gyda Swyddogion y Cyngor am gyfnod o bedair wythnos. Roedd canran uchel o ymatebwyr yn cytuno â chynnwys y Strategaeth, a ddangosai gefnogaeth i'r Strategaeth a'r bwriad i'w hadolygu'n rheolaidd. Cydnabuwyd bod angen gwella cyfraniad cynyddol plant a phobl ifanc ym mhenderfyniadau'r Cyngor, edrych ar ddulliau newydd o gasglu a chyflwyno adborth yn ddigidol ac ystyried ffyrdd o adrodd ar y llwyddiant/diffyg llwyddiant o ran cymryd rhan. Nododd y câi Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 24 Hydref 2023 ac, wedi hynny, i'r Cyngor llawn ar 26 Hydref 2023, i'w gadarnhau.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y Pwyllgor y prif faterion a ganlyn:-

- Holwyd beth oedd y trefniadau a'r prosesau ychwanegol y bwriedid eu rhoi yn eu lle i sicrhau y byddid yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion newydd. Ymatebodd y Rheolwr Rhaglen gan ddweud bod angen gwella cyfranogiad ac ymatebion i ymgynghoriadau, yn enwedig gan fod ymatebion i'r ymgynghoriadau yn is ymhlith y grŵp oedran 16 i 24. Byddid yn ailsefydlu'r Fforwm Plant a Phobl Ifanc er mwyn denu ymatebion i waith y Cyngor gan y genhedlaeth iau. Roedd angen ailsefydlu'r Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori er mwyn sicrhau y byddid yn cydymffurfio â Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd. Ychwanegodd fod angen asesu gwahanol ffyrdd o gasglu ymatebion digidol i ymgynghoriadau. Roedd angen ystyried ffactorau demograffig oherwydd y boblogaeth oedd yn heneiddio ar Ynys Môn. Mewn rhai achosion, nid oedd y boblogaeth hŷn yn defnyddio'r llwyfan digidol i ymateb i ymgynghoriadau a'i bod yn well ganddynt ymateb yn y dulliau traddodiadol.

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod angen annog yr ieuenctid i gymryd rhan yn swyddogaethau democrataidd y Cyngor. Dywedodd yr Is-Gadeirydd fod yr Arweinydd wedi gwahodd plant o Ysgol Gynradd y Fali yn ddiweddar i weld y swyddogaethau democrataidd ac i esbonio iddynt waith adrannau'r Cyngor. Dywedodd yr Aelod Portffolio dros Wasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai fod llais plant a phobl ifanc yn hollbwysig i wasanaethau'r Awdurdod Lleol, oedd yn cael effaith arnynt yn feunyddiol. Dywedwyd, hefyd, y dylid annog disgyblion Ysgolion Uwchradd i ddod i'r Cyngor ac estyn gwahoddiad iddynt a bod ganddynt farn gref ar yr hyn yr hoffent ei weld yn digwydd yn eu cymunedau. Holwyd a oedd y Cyngor yn cynnig profiad gwaith ac a oedd yr ysgolion a'r asiantaethau lleol, oedd yn gweithio gyda phobl ifanc, yn ymwybodol o gyfleoedd i gael profiad gwaith. Ymatebodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid gan ddweud, mai fel y cyflogwr mwyaf ar Ynys Môn, câi cyfleoedd profiad gwaith eu rhoi i bobl ifanc gyda gwaith yn cael ei wneud gyda Choleg Llandrillo Menai i ddenu myfyrwyr i weithio mewn cartrefi preswyl. Roedd y Tîm Adnoddau Dynol yn gweithio'n agos gydag ysgolion i gynnig gwybodaeth am y cyfleoedd cyflogaeth oedd yn y Cyngor.
- Codwyd cwestiynau ynghylch goblygiadau ariannol gwireddu'r Strategaeth Gyfranogi arfaethedig. Ymatebodd y Prif Weithredwr gan ddweud na ragwelid y byddai unrhyw gostau ariannol ychwanegol mewn perthynas â'r Strategaeth gan ei bod yn ofyn statudol. Mynegodd ei bod yn bwysig manteisio ar dechnoleg ddigidol i roi cyfle i bobl ymgysylltu, ymgynghori a chael mwy o drigolion lleol i ymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus. Fodd bynnag, dylid, hefyd, roi cyfle i bobl yr oedd yn well ganddynt beidio â defnyddio'r platfform digidol oedd ar gael. Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod gweithio gyda phartneriaid y trydydd sector yn hollbwysig yn eu hymwneud â thrigolion yr Ynys ac, wedi hynny, gallai'r Cyngor fanteisio ar eu hymarfer mapio.
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod angen i benawdau'r ymgynghoriadau fod yn fwy gweladwy eu cynnwys. Nodwyd nad oedd rhai trigolion yn ymwybodol y gallent gymryd rhan mewn ymgynghoriad ar wahanol faterion yn y Cyngor. Rhoddwyd enghraifft - nad oedd pobl yn ymwybodol y gallent ddod i gyfarfodydd Pwyllgorau'r Cyngor a'r Cynghorau Tref a Chymuned, yn enwedig os câi mater lleol ei drafod oedd o bryder i drigolion lleol. Cytunodd y Prif Weithredwr ei bod yn bwysig bod angen i'r pennawd ymgynghori fod yn fwy gweladwy ei gynnwys er mwyn denu pobl i gymryd rhan mewn ymgynghoriad cyhoeddus. Cytunodd ei bod yn bwysig, fel rhan o'r broses ddemocratiaeth, bod pobl yn dod i gyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned ac y gellid codi'r mater yn y Pwyllgor Safonau a'r fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ar lefel gymunedol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd am 2023/2028;**
- **Argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd Cyngor Sir Ynys Môn, bod y Cyngor llawn yn mabwysiadu Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd, ei bod yn ddogfen fyw, yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd ac y bydd yn parhau i adeiladu ar ein llwyddiannau hyd yn hyn;**
- **Awdurdodi'r Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol a Thrawsnewid, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio dros Fusnes Corfforaethol a**

**Phrofiad Cwsmeriaid, i baratoi'r ddogfen derfynol, yn unol â'r fformat corfforaethol, cyn uwchlwytho'r ddogfen ar wefan y Cyngor.**

**GWEITHRED:- Gwahodd y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned i drafod rôl, pwrpas a chyfraniad cynghorau tref a chymuned wrth hyrwyddo ymgysylltiad a chyfraniad y cyhoedd pan fo'r Cyngor yn ymgynghori ar faterion penodol.**

## 7 BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn nodi blaenraglen waith ddangosol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio am 2023/2024.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cytuno ar fersiwn gyfredol y flaenraglen waith am 2023/2024;**
- **Nodi'r cynnydd hyd yma o ran gweithredu'r rhaglen waith i'r dyfodol.**

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 22/11/2023 |
| **Pwnc:** | Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu 2023 - 2028 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Nodi cynllun hirdymor y Cyngor i arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu mwy. |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Dylan Rees |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Deilydd Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Huw Percy, Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | Meirion Edwards, Prif Swyddog Rheoli Gwastraff<br>01248 752 818<br>meirionedwards@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Pob aelod |

25

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** Nodi'r Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu 2023 – 2028.<br><br>**A2** Argymell i'r Cyngor fabwysiadu'r Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu 2023 – 2028. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Mae'r Cynllun yn cefnogi gweledigaeth yn Nghynllun y Cyngor 2023-28 i:<br><br>"greu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu"<br><br>Bydd y Cynllun Adnoddau ac Ailgylchu hwn yn ein galluogi i weithredu ar yr argyfwng newid hinsawdd gan ymateb i un o Amcanion strategol Cynllun y Cyngor; Newid hinsawdd. Mae Cynllun y Cyngor yn nodi y byddwn wedi cynyddu cyfraddau ailgylchu erbyn 2028. Mae'r ddogfen hon yn nodi cynllun i weithio tuag at gyfradd ailgylchu o 70%.<br><br>Mae'r Cynllun yn nodi ein nod i symud tuag at Economi Gylchol yn Ynys Môn; Cadw adnoddau'n cylchredeg yn yr economi cyhyd â phosibl cyn eu taflu, bydd hyn yn helpu tuag at ein taith tuag at allyriadau carbon sero-net erbyn 2030 |

| **3 - Egwyddorion fel Canllaw ar gyfer Aelodau Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]** |

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 – Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Mae amcanion y Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu yn uchelgeisiol. Beth arall gall y Cyngor ei wneud i gyflawni cyfradd ailgylchu statudol o 70%?
2. Sut mae'r cynllun hwn yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei ymrwymiad i fod yn garbon sero-net erbyn 2030?
3. Pa risgiau a nodwyd a allai effeithio ar gyflawni'r cynllun hwn?
4. Be ydy'r goblygiaudau ariannol i'r Cyngor gyflawni'r cynllun yma?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

Mae'r Cynllun yn nodi ein meysydd blaenoriaeth:

1. Lleihau gwastraff a chynyddu ailddefnyddio
2. Cynyddu ailgylchu a gwella ansawdd
3. Gwella glanhau strydoedd a lleihau tipio anghyfreithlon
4. Arwain trwy esiampl

Drwy fabwysiadu'r cynllun, bydd yn darparu llwyfan i'r Cyngor wneud ceisiadau cryf ar sail tystiolaeth am gyllid allanol ac yn galluogi dull cyson o wella ein cyfradd ailgylchu.

Bydd cyflawni rhai o amcanion y cynllun yn heriol ac yn dibynnu ar sicrhau cyllid allanol, ni fyddai'n ymarferol ariannu drwy gyllideb refeniw a chyfalaf gyfyngedig y Cyngor yn unig.

**6 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** **[gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

**6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

Bydd y cynllun yn cael ei roi ar waith gydag ystyriaeth lawn i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, bydd datblygu a gwella ein hadnoddau a'n gwasanaethau ailgylchu yn cael eu hystyried yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb, er enghraifft rydym ar hyn o bryd yn darparu casgliadau â chymorth i bobl â phroblemau symudedd.

Ni ddisgwylir y byddai cyflawni'r cynllun hwn yn cael unrhyw effaith sylweddol ar grwpiau gwarchodedig.

**6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)**

Bydd cyflawni'r cynllun hwn yn darparu gwell gwasanaethau i bob aelod o'n cymunedau leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu mwy o'u gwastraff.

Dylai cyflawni nodau economi gylchol ddarparu buddion economaidd trwy sicrhau bod hyd oes nwyddau yn cael eu hymestyn.

**6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

Bydd cyflawni'r cynllun hwn yn cael ei wneud yn unol â'n safonau iaith Gymraeg.

**7 – Goblygiadau Ariannol**

Bydd cyflawni'r Cynllun Adnoddau ac Ailgylchu yn dibynnu ar sicrhau rhywfaint o gyllid allanol, felly, mae'n bosibl y bydd y cynllun ond yn cael ei gyflawni'n llawn ar sail y cylch gwaith y sicrheir cyllid allanol.

Pe bai hyn yn digwydd, o ran datblygu gwasanaethau a seilwaith newydd, ni fyddai unrhyw oblygiadau ariannol sylweddol ar y Cyngor ac eithrio amser swyddogion i gyflawni fel y cytunwyd mewn unrhyw gais am gyllid.

**8 – Atodiadau:**

1. Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu Ynys Môn 2023/2028
2. Adroddiad Crynodeb yn Dilyn yr Ymgynghoriad

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
| --- |
| Mae Cynllun Gweithredu technegol ar gael ar gais. |

Ynys Môn
The Isle of Anglesey



Tudalen 15

# Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu 2023-2028

Cyngor Sir Ynys Môn
Isle of Anglesey County Council

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn y Saesneg / This document is also available in English.

# Gweledigaeth



Tudalen 16

"Symud at Economi Gylchol ar Ynys Môn fel rhan o'n taith at allyriadau carbon net sero erbyn 2030"

**Ein gweledigaeth gyffredinol yw creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.** Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael a'r argyfwng newid hinsawdd. Mae'r angen i weithredu er budd yr hinsawdd a'n hamgylchedd yn fwy pwysig nag erioed.

Mae manteisio ar gyfleoedd i symud yn hyderus at Economi Gylchol ar Ynys Môn a Chymru'n rhan allweddol o'n hymateb tuag at yr hinsawdd. Byddwn yn defnyddio ffynonellau'n gynaliadwy drwy leihau gwastraff, sicrhau bod eitemau'n cael eu defnyddio eto, yn cael eu hailgylchu ar gyfer gweithgynhyrchu neu'n cael eu hanfon i'w atgyweirio.



# Cynllun y Cyngor 2023-2028

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**

Tudalen 17

‘Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall bobl ffynnu.’

Mae Cynllun y Cyngor yn ddogfen allweddol a fydd yn bwynt canolog i benderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud ar bob lefel; bydd yn darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; llunio gwariant blynyddol; monitro perfformiad a chynnydd.

Yn ei hanfod mae a wnelo’r cynllun â’n dymuniad i weithio gyda thrigolion Ynys Môn, cymunedau a phartneriaid a sicrhau ein bod ni’n darparu’r gwasanaethau gorau posib, gwella ansawdd bywyd i bawb a chreu cyfleoedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu’r meysydd allweddol y dylai’r Cyngor fod yn canolbwyntio arnynt.

## Ein chwe amcan strategol

### Yr Iaith Gymraeg

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

### Gofal Cymdeithasol a Llesiant

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg cywir.

### Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

### Tai

Sicrhau fod gan pawb yr hawl i alw rhywle yn gartref.

### Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.

### Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael a newid gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

[Cynllun y Cyngor 2023-2028]

# Cynllun y Cyngor 2023-2028

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn seiliedig ar werthoedd craidd y sefydliad, sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain y weledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.

Cynllun y Cyngor 2023-2028

## Gwerthoedd

### Parch
Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf ein gwahaniaethau.

### Cydweithio
Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid, i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Ynys Môn.

### Gonestrwydd
Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.


### Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys
Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r Ynys.

# Cylch Strategol

Mae’r cylch strategol yn adnabod y cynlluniau sydd mewn lle er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau ac amcanion.

Mae'r cynllun hwn yn gynllun strategol allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at gyflawni’r amcanion strategol a’r gweledigaeth.







[Cynllun y Cyngor 2023-2028]

# Ein Blaenoriaethau Strategol

1. Lleihau gwastraff ac ailddefnyddio
2. Gwella cyfraddau ailgylchu ac ansawdd
3. Gwella glanweithdra strydoedd a lleihau tipio
4. Bod yn esiampl dda


**Themâu Cefnogol:**

1. Codi ymwybyddiaeth er mwyn hyrwyddo newid mewn ymddygiad
2. Datblygu seilwaith sy’n addas at y dyfodol
3. Gwella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd fflyd



# Ysgogwyr a Data

Rydym yn wynebu argyfwng hinsawdd byd-eang ac rydym yn defnyddio ffynonellau'n anghynaladwy. Mae Llywodraeth Cymru ac Ynys Môn wedi cydnabod hyn ac mae fframwaith strategol a deddfwriaethol ar waith i gefnogi'r gwaith o symud tuag at economi gylchol. Mae hyn yn allweddol wrth leihau ein hallyriadau carbon yn sylweddol a'n gorddefnydd o ffynonellau naturiol, a bydd yn helpu i ddadwneud y dirywiad mewn bioamrywiaeth. Gall hefyd wella canlyniadau economaidd a chymdeithasol. Mae'r ysgogwyr a'r fframwaith deddfwriaethol a strategol sydd ar waith i gefnogi'r camau tuag at economi gylchol wedi'u crynhoi isod:




- Argyfwng hinsawdd byd-eang
- Defnydd anghynaladwy a phrinder ffynonellau byd-eang

**Presennol:**
- Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Datgan argyfwng hinsawdd yn 2019
- Mwy nag Ailgylchu 2021

**Ar y gweill:**
- Deddfwriaeth Ailgylchu, y Trydydd Sector a'r Sector Gyhoeddus (o Ebrill 2024)
- Cynllun Dychwelyd Ernes (CDE)
- Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer Deunydd Pacio
- Cynhwysiant Troi Gwastraff yn Ynni yn y Cynllun Masnachu Allyriadau

- Datgan argyfwng hinsawdd yn 2020
- Targed i ddod yn gyngor carbon sero net erbyn 2030
- Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn (2023-2028)

**34,500**

o gartrefi'n derbyn casgliadau gwastraff ac ailgylchu

**15,000**

o gwsmeriaid gwastraff gardd yn cynhyrchu

**£550k**

o incwm bob blwyddyn

Tudalen 22

**100 %**

gyda lefel glanweithdra derbyniol, neu wedi gwella*

**72%**


yw'r gyfradd ailgylchu dros ddwy Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref

**1**


safle tirlenwi sydd wedi cau yn derbyn ôl-ofal

## Ein sefyllfa bresennol a'n gobeithion erbyn 2025

### Cyfradd Ailgylchu 2021/22




### Cyfradd Ailgylchu 2025




* Adroddiad LEAMs 21/22 Cadw'ch Gymru'n Daclus – mae pob stryd a arolygwyd wedi cyrraedd lefel B (glanweithdra derbyniol) neu uwch.

# Blaenoriaeth Allweddol 1 – Lleihau gwastraff ac ail-ddefnyddio

**Y ffordd orau o gyflawni economi gylchol carbon isel yw lleihau'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu yn y lle cyntaf. Y dull pwysicaf arall o ddelio â gwastraff yw ceisio ei ail-ddefnyddio (sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio dro ar ôl tro at ei ddiben gwreiddiol am gyn hired â phosibl).**

Er mwyn lleihau gwastraff, mae'n rhaid i bawb gydweithio. Byddwn yn blaenoriaethu cefnogi ein trigolion i leihau gwastraff a darparu neu hyrwyddo cyfleoedd i ail-ddefnyddio.



Rydym wedi ymrwymo i

- Mabwysiadu cynllun cyfathrebu lleol sy'n cyfoethogi'r ymgyrch genedlaethol sydd eisoes ar waith ac yn cael ei ariannu gan Cymru yn Ailgylchu (walesrecycles.org.uk) Llywodraeth Cymru.
- Annog deiliad tai i leihau gwastraff yn eu cartrefi, gan gynnwys lleihau gwastraff bwyd.
- Datblygu partneriaethau pellach gydag elusennau ailddefnyddio a grwpiau cymunedol i ddatblygu cyfleoedd ailddefnyddio mewn Canolfan Ailgylchu Gwastraff Tai.

Erbyn 2028 byddwn wedi

- Gweithio mewn partneriaeth gydag ymgyrch genedlaethol 'Cymru yn Ailgylchu' i rannu negeseuon am leihau ac ailddefnyddio gyda deiliad tai ar lefel leol.
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth ac addysgu deiliad tai ar y buddion o leihau ac ailddefnyddio fel rhan o'n Cynllun Cyfathrebu
- Sicrhau y darperir cyfleoedd I drigolion er mwyn ailddefnyddio lle bo'n bosibl:
  - Gweithio gyda grwpiau cymunedol i gasglu eitemau i'w hailddefnyddio.
  - Adnabod lleoliad posibl i agor siopau ailddefnyddio.

# Blaenoriaeth Allweddol 2 – Gwella Cyfraddau ac Ansawdd Ailgylchu

**Mae ailgylchu'n lleihau'r angen am ddeunyddiau crai ac yn sicrhau y defnyddir ffynonellau'n fwy effeithlon. Bydd cynyddu cyfaint y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu yn lleihau ein hôl troed carbon a chyfrannu at gyflawni allyriadau carbon sero net erbyn 2030.**

Mae gennym rwymedigaeth statudol i gyflawni cyfradd ailgylchu o 70% erbyn 2025. Gall methu â bodloni targedau ailgylchu arwain at ddirwy o £200 am bob tunnell a fethir.



## Rydym wedi ymrwymo i

- Gweithio gyda phartneriaid i adolygu ein gwasanaethau a gwella'r gwasanaeth er mwyn codi lefelau ailgylchu o tua **8%** i fodloni ein targedau statudol.
- Ystyried y goblygiadau o leihau capasiti gwastraff gweddillol o 80 litr bob wythnos.
- Gweithredu ymgyrch ymgysylltu â gorfodi, cnocio ar ddrysau i godi ymwybyddiaeth ac addysgu trigolion ac ymwelwyr.
- Gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith i gyflawni'r gwelliannau gofynnol o fewn gwasanaethau i fodloni targedau ailgylchu statudol dros dro ac yn y dyfodol.

## Erbyn 2028 byddwn wedi

- Recriwtio tîm prosiect ymroddedig i weithio gyda'r tîm presennol er mwyn darparu cynllun gwella fydd yn:
  - Cael gwared ar bwyntiau casglu dros dro
  - Adolygu a lleihau pwyntiau casglu cyhoeddus
  - Ymgyrch gyfathrebu wedi'i thargedu
  - Adolygu a gweithredu polisi dim gwastraff ochr / caead wedi cau
  - Adolygu a chael gwared ar finiau ychwanegol
  - Lleihau capasiti biniau gwastraff gweddillol
- Cael cymeradwyaeth corfforaethol ar gyfer y cynllun gwella.
- Gweithio gyda phartneriaid i weithredu gwelliannau i wasanaethau a gwella ansawdd a chyfraddau ailgylchu.
- Adolygu y system troli bocs presennol i alluogi pobl i ailgylchu mwy
- Cynnal y ffi am y gwasanaeth casglu gwastraff gwyrdd.

# Blaenoriaeth Allweddol 3 - Gwella glanweithdra strydoedd a lleihau tipio

**Bydd cadw Ynys Môn yn lân hefyd yn cyfrannu at ddatblygu economi gryfach, ac yn gwella llesiant drwy hyrwyddo darlun cadarnhaol i drigolion ac ymwelwyr.**

Mae cadw strydoedd, traethau a meysydd parcio'r Cyngor yn rhydd rhag ysbwriel a thipio yn ofyniad statudol ar gyfer y Cyngor.

Mae gan rai ardaloedd ar Ynys Môn lefel uchel o ddigwyddiadau tipio. Rydym yn effeithlon iawn o ran glanhau gwastraff tipio, ond byddai atal hyn rhag digwydd yn gwella glanweithdra strydoedd ac yn lleihau costau.



## Rydym wedi ymrwymo i

- Cynnal y lefel bresennol o lanweithdra drwy sicrhau y cesglir ysbwriel a gwastraff yn brydlon.
- Ceisio gwella effeithlonrwydd er mwyn gwneud gwelliannau pellach i berfformiad lle bo'n bosibl.
- Datblygu cynllun i fynd i'r afael â nifer y digwyddiadau tipio gwastraff mewn ardaloedd blaenoriaeth ar Ynys Môn.

## Erbyn 2028 byddwn wedi

- Cynnal gweithdrefnau rheoli contract grymus er mwyn sicrhau y cynhelir lefelau glanweithdra, a'u bod yn cael eu gwella lle bynnag y bo'n bosibl.
- Gweithio gyda Gwasanaethau eraill y Cyngor, Cynghorwyr, Cynghorau Tref, Cadw'ch Gymru Daclus, busnesau lleol, landlordiaid a'r Heddlu er mwyn creu datrysiad cydlynol i leihau nifer y digwyddiadau tipio gwastraff.
- Darparu mwy o finiau ailgylchu a gwastraff ar strydoedd.
- Cefnogi'r gwaith o ddarparu ein Cynllun Cyrchfannau i feithrin balchder yn ein cymunedau.

# Blaenoriaeth Allweddol 4 – Bod yn Esiampl Dda

**Mae'n rhaid i bawb gydweithio i gyflawni'r buddion o symud tuag at economi gylchol. Byddwn yn flaenllaw ac yn sicrhau bod ailgylchu'n gwella yn holl adeiladau'r cyngor, gan ddangos ein hymrwymiad at sero net.**

Bydd casglu deunydd ailgylchu o ansawdd o eiddo annomestig yn ofyniad statudol o Ebrill 2024.



Rydym wedi ymrwymo i

- Cydweithio ar draws Gwasanaethau er mwyn sicrhau bod adeiladau'r Cyngor yn derbyn y gefnogaeth a'r arweiniad gofynnol.
- Caffael contractwr newydd i gasglu a phrosesu gwastraff ac ailgylchu o adeiladau'r Cyngor.
- Gweithio tuag at gyflawni cyfradd ailgylchu 70% o ran y gwastraff a gesglir o adeiladau'r Cyngor.

Erbyn 2028 byddwn wedi

- Sefydlu gwasanaeth ailgylchu a gwastraff sy'n galluogi adeiladau'r Cyngor i ailgylchu mwy o wastraff.
- Cynnal prawf ymlaen llaw er mwyn profi gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu i helpu i gynnig cyngor ar broses fanylu a chaffael newydd.
- Penodi contractwr newydd i gasglu gwastraff ac ailgylchu o adeiladau'r Cyngor erbyn Mehefin 2023 - bydd y gwasanaeth yn dechrau ym Medi 2023.
- Cyfathrebu gyda rheolwyr adeiladau'r Cyngor, staff ac ysgolion i godi ymwybyddiaeth am y gwasanaeth newydd.

# Hwylusydd 1 – Codi Ymwybyddiaeth i Hyrwyddo Newid Mewn Ymddygiad

**Mae cyfathrebu'n glir yn hanfodol o ran codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd symud i economi gylchol a hyrwyddo newid cadarnhaol mewn ymddygiad.**

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cyfathrebiadau cydlynol a chyson, gan dargedu eiddo sy'n anodd i'w cyrraedd er mwyn codi ymwybyddiaeth o: leihau gwastraff, lleihau llygredd ac ailgylchu mwy.



## Rydym wedi ymrwymo i

- Byddwn yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau cyfathrebu, gan gynnwys addysg wedi'i thargedu.
- Parhau i weithio gyda'r tîm cyfathrebu corfforaethol i gyfoethogi tudalennau cyfryngau cymdeithasol gwastraff ac ailgylchu Ynys Môn.
- Defnyddio negeseuon e-bost fel dull o gyfathrebu er mwyn rhoi gwybodaeth a hyder i drigolion ailgylchu mwy.
- Darparu ymgyrch caffael wedi'i thargedu i godi ymwybyddiaeth, addysgu ac annog trigolion ac ymwelwyr i ailgylchu mwy.

## Erbyn 2028 byddwn wedi

- Penodi rheolwr prosiect (os yw cyllid yn caniatáu) fydd yn datblygu ac yn gweithredu cynllun cyfathrebu wedi'i dargedu
- Darparu ymgyrchoedd cyfathrebu wedi'u targedu at drigolion am yr hyn y gallent ei wneud i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff yn eu cartrefi.
- Hyrwyddo ymgyrchoedd cenedlaethol megis Hoffi Bwyd Casau Gwastraff i hyrwyddo lleihau gwastraff bwyd.

# Hwylusydd 2 - Gwella Adeiladau a Strwythur

**Er mwyn darparu gwasanaethau sy'n addas ar gyfer y dyfodol mae'n rhaid cael yr adeiladau a'r strwythurau cywir sy'n cynnig effeithlonrwydd gweithredol.**

Mae angen strwythurau er mwyn cynnal gweithgareddau busnes diogel ac i reoli tunelli ychwanegol o ailgylchu sy'n deillio o welliannau i'r gwasanaeth.

Tudalen 28

Rydym wedi ymrwymo i

- Adeiladu ar y rhwydwaith presennol o gydweithio er mwyn adolygu adeiladau gweithredol a strwythurau sefydlog ar safleoedd gweithredol er mwyn pennu a ellir gwneud addasiadau effeithlon ar y safleoedd.
- Rydym wedi paratoi cynllun buddsoddi cyfalaf 5 mlynedd, sy'n dangos yr angen i fuddsoddi hyd at **£9.9m** er mwyn cynnal a gwella ein strwythurau.
- Adolygu darpariaeth HWRC presennol y Cyngor er mwyn pennu a ddylid cynyddu neu leihau darpariaeth bresennol y gwasanaeth.

Erbyn 2028 byddwn wedi

- Cytuno ar gynllun cyfalaf 5 mlynedd er mwyn diffinio'r lefel debygol o wariant cyfalaf sydd ei angen yn y dyfodol i gyd-fynd â Strategaeth newydd (2023-2028).
- Darparu adolygiad/opsiynau arfarnu llawn ar adeiladau a strwythurau sefydlog erbyn diwedd 2024.
- Darparu opsiynau arfarnu er mwyn adolygu darpariaeth gwasanaeth HWRC erbyn diwedd 2024.
- Cwblhau opsiynau arfarnu ar y cylfat ym Mhenhesgyn erbyn Ebrill 2024.
- Cyflawni proses gaffael ar gyfer contract cynhyrchu ynni newydd ym Mhenhesgyn erbyn Awst 2024.

# Hwylusydd 3 - Gwella Cerbydau Fflyd a Diwydiannol

**Rydym angen cerbydau fflyd a diwydiannol effeithlon er mwyn darparu gwasanaethau sy'n addas ar gyfer y dyfodol.**

Byddwn yn cynnal cerbydau fflyd a diwydiannol diogel a phriodol er mwyn rheoli tunelli ailgylchu ychwanegol fydd yn deillio o welliannau i wasanaeth, ac yn symud at gerbydau allyriadau isel iawn yn unol â'n hamcanion sero net.

Tudalen 29

## Rydym wedi ymrwymo i

- Adolygu'r gofynion newydd ar gyfer cerbydau fflyd yn unol â thargedau a ULEV Llywodraeth Cymru.
- Adolygu'r cerbydau fflyd casglu ailgylchu/gwastraff cyfan a gofynion peiriannau safleoedd y Cyngor er mwyn rhoi cynllun pontio ar waith gan newid o gerbydau disel i gerbydau allyriadau isel iawn.

## Erbyn 2028 byddwn wedi

- Cytuno ar gynllun cyfalaf 5 mlynedd er mwyn diffinio'r lefel debygol o wariant cyfalaf sydd ei angen yn y dyfodol i gyd-fynd â'r Strategaeth newydd (2023-2028).
- Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer gofynion arfaethedig cerbydau fflyd casglu ailgylchu/ gwastraff a cherbydau diwydiannol newydd i sicrhau bod 'busnes yn parhau fel normal', a bod cynllun pontio'n bodoli o gerbydau disel i gerbydau allyriadau isel iawn ar waith.


# Er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau strategol byddwn yn datblygu tri cynllun gweithredu allweddol.

Mae’r cylch strategol yn adnabod y cynlluniau sydd ar waith er mwyn sicrhau y gallwn gyflawni ein blaenoriaethau a’n hamcanion.

Ymgynghorwyd gyda cymdogion Ynys Môn ar y cynllun strategol yma. Bydd yr adborth a dderbyniwyd yn ein helpu i lunio y cynlluniau gweithredu yma.

Tudalen 30





# Mae cyflawni'r canlyniadau delfrydol ar gyfer y Cynllun Strategol hwn yn dibynnu ar sicrhau’r cyllid cywir



Nid yw’r cyllid ar gyfer darparu’r meysydd blaenoriaeth allweddol o fewn y Strategaeth, y Cynllun Gwella a’r Cynllun Cyfalaf heb ei adnabod yn benodol ar hyn o bryd.



Gellid defnyddio nifer o ffrydiau ariannu posibl gan gynnwys:

- Refeniw cyffredinol a thanwariant Rheolaeth Gwastraff,
- Cyfleoedd ariannu grant Economi Gylchol,
- Llywodraeth Cymru - rydym wedi cael trafodaethau adeiladol gyda swyddogion o Lywodraeth Cymru ynghylch anghenion ein seilwaith yn y dyfodol a’r lefel o fuddsoddiad rydyn ni’n ei gynnig ar gyfer ein Gwasanaeth Gwastraff er mwyn gwella perfformiad/bodloni targedau ailgylchu statudol yn y dyfodol dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda chydweithwyr o Lywodraeth Cymru ar ‘Asesiad Prosiect Dechreuol’, sy’n dilyn y model busnes 5 Achos, cyn symud ymlaen i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol a derbyn cyllid cyfalaf ychwanegol.


# Er mwyn gweithredu'r Cynllun Strategol hwn byddwn yn defnyddio gweithdrefnau llywodraethu presennol.

- Bwrdd rhaglen adnoddau ac effeithlonrwydd; gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor, CLlLG a WRAP Cymru,
- Cyfarfodydd rheoli contractau gyda chontractwyr,
- Grwpiau llywio eisoes wedi'u sefydlu er mwyn darparu gwasanaeth gwastraff gwyrdd gardd, casgliadau ailgylchu a gwastraff o adeiladau'r cyngor.

Bydd y Bwrdd Rhaglen Perfformiad ac Effeithlonrwydd yn chwarae rhan allweddol o ran cynghori ar sut rydym yn cyflawni'r gyfradd ailgylchu o 70% a chyflawni amcanion y strategaeth hon.



Bydd y trefniadau hyn yn sicrhau eglurdeb, atebolrwydd, cydlyniad a strwythur er mwyn monitro cynnydd yn effeithiol. Bydd cynnydd yn cael ei adolygu bob chwarter a llunnir adroddiadau er mwyn rhoi crynodeb o weithgareddau.



**Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo**

# Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu 2023-2028

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

## 1. Cyflwyniad

Cynhaliwyd ymgynghoriad chwe wythnos rhwng 11 Medi a 20 Hydref 2023. Cafodd ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i hysbysebu ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Cafodd hefyd ei rhannu â fforymau heneiddio'n dda Ynys Môn.

Fe dderbyniom 175 o ymatebion. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r canlyniadau a'r prif themâu a nodwyd.

Dyluniwyd yr ymgynghoriad i gael adborth gan drigolion Ynys Môn ar y Cynllun Strategol a'n prif ffrydiau gwaith i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu mwy o wastraff o gartrefi.

Ar y cyfan roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r Cynllun Strategol a'r pedwar maes blaenoriaeth allweddol. Mae meysydd y dylid eu hystyried yn ofalus o hyd, sef y system troli biniau ar gyfer casglu gwastraff i'w ailgylchu. Bydd y meysydd hyn yn cael eu hystyried yn y tri chynllun gweithredu yr ydym ni wedi'u nodi.

## 2. Crynodeb

### 2.1. Pwy wnaeth ymateb


Fe dderbyniom 190 o ymatebion:

- roedd y rhan fwyaf (169) gan drigolion drwy arolwg ar-lein
- cafwyd un ymateb ysgrifenedig ar y cyd ar ran 20 aelod o grŵp cymunedol 50+ Amlwch
- cafwyd 1 ymateb gan y contractwyr Biffa

## 3. Roedd canlyniadau'r arolwg yn dangos y canlynol:

### 3.1. Dadansoddiad oedran


Roedd y rhan fwyaf yn 65 oed a hŷn (35%). Mae'r graff isod yn dadansoddi'r ymatebwyr yn ôl oedran.




### 3.2. Fe ofynnom

3.2.1. Beth ydi'ch barn chi ar ein meysydd blaenoriaeth?

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'n pedwar maes blaenoriaeth allweddol.





Fe wnaeth 62 o'r ymatebwyr gynnwys sylwadau pellach mewn ymateb i'n meysydd blaenoriaeth allweddol. Gellir rhannu'r sylwadau hyn i chwe thema. Roedd yr ymatebwyr yn poeni am y canlynol:

- Cael mwy o finiau gwastraff ac ailgylchu ar y stryd
- Ailgylchu mwy, yn cynnwys plastigau meddal a phecynnau tetra ar garreg y drws
- Maint y troli biniau – dim digon o le i blastigau a chardfwrdd
- Addasrwydd y troliau biniau – maent yn chwythu drosodd yn ystod gwyntoedd cryfion
- Mwy o wybodaeth i atgoffa trigolion ynghylch beth y gellir ac na ellir eu hailgylchu
- Gweithio gyda busnesau, parciau carafanau a chartrefi gwyliau ac adeiladau cyhoeddus (Ysgolion) i ailgylchu mwy

3.2.2. Sut allwn ni ailgylchu mwy yn eich barn chi?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'n tri phrif ffordd o gael pobl i ailgylchu mwy.





Fe wnaeth 60 o'r ymatebwyr gynnwys sylwadau pellach ynglŷn â sut y gallwn ailgylchu mwy. Gellir rhannu'r sylwadau hyn i bedwar thema. Roedd yr ymatebwyr yn poeni am y canlynol:

- Addasrwydd a chost newid i fflyd carbon is
- Annog mwy o ailddefnyddio yn y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref
- Gwella'r ddarpariaeth yn y Canolfannau Ailgylchu:
    - mwy o ganolfannau (yng ngogledd yr ynys)
    - cynyddu oriau agor
    - cael gwared ar yr angen i archebu lle yng Ngwalchmai
- Lleihau faint o sbwriel sy'n chwythu / cael ei ollwng o'r loriau casglu

3.3.3 Beth ydi'ch barn chi ar y gwasanaethau ailgylchu gwastraff cartrefi sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd?

Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr eu bod yn meddwl bod y gwasanaethau ailgylchu presennol yn dda neu'n dda iawn.




Fe wnaeth 75 o'r ymatebwyr ddarparu sylwadau pellach ynglŷn â'r Gwasanaethau Ailgylchu presennol. Roedd 68% o'r ymatebwyr yn meddwl bod y gwasanaeth yn dda neu'n dda iawn. Gellir rhannu'r sylwadau hyn i bedwar thema allweddol. Roedd yr ymatebwyr yn poeni am y canlynol:

- Dydi'r troli biniau presennol ddim yn ddigon mawr i ddal popeth; Plastigau a Chardfwrdd yn bennaf
- Methu ailgylchu mwy o eitemau megis haenau plastig, pecynnau tetra
- Mae'r criwiau casglu'n difrodi neu dorri'r biniau a'r bocsys
- Mwy o wybodaeth i atgoffa trigolion ynghylch beth y gellir ac na ellir eu hailgylchu

### 3.3.4 Beth allwn ni ei wneud i'w gwneud hi'n haws i chi ailgylchu mwy o'ch gwastraff cartref? Er enghraifft, ydi'r troli biniau yn addas ar eich cyfer chi?

Fe wnaeth 144 o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn. Gellir rhannu'r sylwadau hyn i bum thema allweddol ac roedd y themâu yn debyg i'r cwestiynau uchod:

- Dim digon o le yn y troli biniau. Mae'r bin gwydr a chardfwrdd yn rhy fach ac mae'r bin papur yn rhy fawr
- Yn gyffredinol roedd nifer o ymatebwyr yn hapus gyda'r system bresennol
- Pryder bod y biniau'n chwythu drosodd yn ystod tywydd gwyntog a sbwriel ar y stryd
- Mwy o wybodaeth ynghylch beth y gellir ac na ellir ei ailgylchu

- Derbyn mwy o eitemau i'w hailgylchu e.e. plastigau medal a chartonau / pecynnau tetra

### 3.3.5 Hoffech chi dderbyn diweddariad gennym ni ar y prosiect hwn yn y dyfodol?

Roedd 57 o'r ymatebwyr yn dymuno cael eu diweddaru ar y prosiect. Bydd manylion cyswllt yr unigolion hyn yn cael eu hychwanegu i restr ddosbarthu'r gwasanaeth Gwastraff er mwyn eu diweddar  ar y gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu.

### 3.3.6 Ymateb ysgrifenedig

Cafwyd adborth gan Grŵp 50+ Amlwch a oedd yn cynrychioli 20 aelod o'r gymuned leol. Roedd eu sylwadau'n cynnwys yr isod:

- Mae pawb yn defnyddio'r gwasanaeth ailgylchu presennol
- Cytuno'n gryf â'r angen i gadw'n strydoedd, traethau ac ardaloedd cyhoeddus yn lân a lleihau tipio anghyfreithlon
- Holodd y grŵp pam bod angen archebu lle o flaen llaw yng Nghanolfan Ailgylchu Gwalchmai o hyd
- Mae'r troli biniau yn anodd i bobl sy'n byw mewn cartrefi llai
- Pryder nad ydi'r sbwriel o'r lorïau yn cael ei lanhau
- Pryder nad ydi troliau biniau a biniau du bob amser yn cael eu rhoi mewn lle diogel ar y palmant ar ôl cael eu gwagio er mwyn helpu pobl gyda phroblemau symudedd.

## 4. Crynodeb

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r Cynllun Strategol Ailgylchu a Gwastraff.

Roedd 68% o'r ymatebwyr yn meddwl bod y canolfannau ailgylchu'n dda neu'n dda iawn. Fe dderbyniom nifer o sylwadau ynglŷn â'r gwasanaethau ailgylchu presennol ac awgrymiadau ar gyfer eu gwella. Rydym wedi addasu'r Cynllun tudalen 10 i ddweud y byddwn yn adolygu y system troli bocs presennol.

Byddwn yn ystyried y sylwadau rydym wedi dderbyn wrth ddatblygu'r Cynlluniau Gweithredu Gwella a Chyfathrebu a fydd yn nodi sut y byddwn yn cyflawni'r meysydd blaenoriaeth yn y Cynllun Strategol. Rydym wedi diwygio tudalen 16 i gydnabod hyn.

Thema allweddol a gododd yn y sylwadau a dderbyniwyd gan yr ymatebwyr oedd maint y gwahanol finiau yn y troli a bod y bin gwydr a chardfwrdd yn rhy fach.

Byddwn yn diwygio’r cynllun i gydnabod y gwaith yr ydym ni’n ei wneud gyda WRAP Cymru i adolygu’r troli a maint y biniau.

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Craffu** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor craffu Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 22/11/2023 |
| **Pwnc:** | Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Ystyried Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2022/23 |
| **Cadeirydd Craffu:** | Cyng Dylan Rees |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng Alun Roberts, Deilydd Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Rhys H Hughes Dirprwy Prif Weithredwr<br>Ned Michael, Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Daron Owens – Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol ar gyfer Gwynedd a Môn<br>DaronMargedOwens@gwynedd.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i'r holl aelodau |

## 1 – Argymhelliad/Argymhellion

Nodi cynnwys yr adroddiad a'r dogfennau atodol, a nodi a yw'r Pwyllgor Craffu yn cefnogi'r blaenoriaethau a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol.

## 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Mae gofyn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor hwn bob blwyddyn er mwyn cyflwyno trosolwg o weithgareddau. Mae hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hymrwymiadau yn unol ag adrannau 19 a 20, Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2006.

**Dyletswydd y pwyllgor yw craffu gwaith y Bartneriaeth, yn hytrach na gwaith yr aelodau (cyrff) unigol.**

## 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer craffu

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio

- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Craffu Allweddol**

1. I ba raddau mae'r pwyllgor yn cytuno â blaenoriaethau'r Bartneriaeth, sy'n seiliedig ar broses asesu anghenion lleol, ac a oes materion eraill sydd angen eu blaenoriaethu?
2. Ym mha ffordd mae'r bartneriaeth statudol yn ychwanegu gwerth ac yn gweithio mewn ffordd effeithiol ac effeithlon yn unol â disgwyliadau'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998?
3. I ba raddau mae'r cynllun gweithredu yn ddigon gwydn i ymdrin ag agweddau o'r meysydd blaenoriaeth er budd cymunedau Môn?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**CEFNDIR:**

1) Mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol yn unol â Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998, **a'r diwygiadau dilynol yn sgîl deddf Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2002 a 2006,** i weithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Tân ac Achub i roi sylw i'r agenda diogelwch cymunedol yn lleol. Dyma'r prif asiantaethau sy'n ffurfio'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

2) Fel aelod statudol o'r Bartneriaeth, mae'n bwysig bod yr ALl yn cael ei gynrychioli'n briodol. Cyflawnir hyn drwy bresenoldeb yr aelod lleol presennol gyda phortffolio Diogelwch Cymunedol, sef Alun Roberts, a'r prif swyddog gyda chyfrifoldeb am y gwaith, sef Rhys Hughes (Cadeirydd).

**3) Yn wreiddiol, galwyd partneriaethau diogelwch cymunedol yn bartneriaethau trosedd ac anhrefn, ac er bod yr enw wedi'i newid, nid yw'r cyfrifoldebau, maent yn parhau i fod -**

- Throsedd ac Anhrefn
- Camddefnyddio Sylweddau
- Lleihau Aildroseddu
- Mae gennym hefyd gyfrifoldeb i lunio a gweithredu strategaeth i atal a lleihau trais difrifol, yn dilyn diwygiadau i'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn o ganlyniad i'r Ddyletswydd Trais Difrifol newydd. Yng Ngogledd Cymru, mae dull rhanbarthol yn cael ei fabwysiadu.

- O dan y Ddeddf Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwyr 2004, mae gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ddyletswydd statudol hefyd i sefydlu Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHRs). Mae'r rhain yn adolygiad o'r amgylchiadau pan fo marwolaeth person 16 oed neu hŷn wedi, neu'n ymddangos ei bod wedi deillio o drais, cam-drin neu esgeulustod gan— (a) person yr oedd yn perthyn iddo neu wedi bod mewn perthynas bersonol agos, neu (b) yn aelod o'r un aelwyd ag ef ei hun, gyda golwg ar nodi'r gwersi i'w dysgu o'r farwolaeth.

4) Mae presenoldeb da bob amser yn y cyfarfodydd chwarterol. Mae'r Partneriaid a'r Aelodau Lleol sy'n mynychu'r cyfarfodydd yn cyfrannu'n gadarnhaol, a rhennir data chwarterol ar ffigurau trosedd a chyflawniad y cynllun ym mhob cyfarfod. Mae pob aelod cyfrifol o'r bartneriaeth yn cyfrannu'n ariannol at sefydlu dadansoddwr partneriaeth, fel y gellir darparu data rheolaidd i gefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

5) Mae gweithio rhwng partneriaid yn sylfaenol i ddiogelwch cymunedol. Y prif reswm dros gyflwyno PDC yn ôl ym 1998, oedd sicrhau bod trosedd ac anhrefn yn cael ei ystyried yn '**broblem i bawb'** ac nid i'r Heddlu yn unig.

6) Rhestrir rhai o'r prif newidiadau mae'r bartneriaeth wedi, ac yn parhau i'w hwynebu isod:
   a. Colli grantiau lleol - mae'r **holl grantiau** a fydda cynt yn dod i'r bartneriaeth, naill ai wedi dod i ben, neu wedi symud i fod yn grant ranbarthol ac yn cael ei rheoli ar sail Gogledd Cymru. Nid ydym yn comisiynu unrhyw brosiectau neu wasanaethau yn uniongyrchol (ond y DHRs) gan nad oes gennym unrhyw arian wedi'i ddyrannu i Ddiogelwch Cymunedol.
   b. Colli cydlynwyr lleol - collwyd rhai swyddi oherwydd bod cyllid wedi'i dynnu'n ôl, daeth eraill yn adnodd rhanbarthol. Fodd bynnag, trwy gynnal aelodaeth agos a phwrpasol o'r grwpiau rhanbarthol, rydym yn hyderus bod anghenion lleol wedi'u hymgorffori ym **mhob** cynllun a gweithgaredd rhanbarthol.
   c. Y prif heriau yr ydym i gyd yn eu hwynebu wrth gwrs, yw wyneb newidiol troseddu yn ein cymunedau heddiw. **Er bod Gwynedd ac Ynys Môn yn parhau i fod ymhlith y lleoedd mwyaf diogel i fyw**, rydym yn wynebu'r un materion â phob ardal arall yn y DU. Mae troseddau heddiw yn bellgyrhaeddol a chymhleth, gyda'r defnydd o dechnoleg yn galluogi lefel o droseddau ecsbloetiol na welwyd o'r blaen. Mae gangiau troseddau cyfundrefnol yn bodoli ledled y DU, y rhan fwyaf yn ymwneud â throseddau cysylltiedig â chyffuriau, ac mae'r gangiau hyn a elwir yn gangiau llinellau sirol (County Lines) wedi bod yn destun llawer o weithgaredd ymatebol yng Ngogledd Cymru, sydd wedi cael effaith fawr ar weithgarwch gangiau troseddol yn yr ardal.

**BLAENORIAETHAU/DOGFENNAU'R BARTNERIAETH AR GYFER CRAFFU:**

Mae'r bartneriaeth yn gweithio yn unol â chynllun blynyddol. Ynghlwm mae cynllun 2023-24, sy'n seiliedig ar flaenoriaethau Strategaeth Bwrdd Gogledd Cymru Mwy Diogel. Y blaenoriaethau hyn yw:

- Atal Troseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Mynd i'r Afael â Throseddau Treisgar

- Mynd i'r Afael â Throseddau Cyfundrefnol Difrifol
- Diogelu ac adeiladu cymunedau gwydn a chynnal diogelwch y cyhoedd

**TROSOLWG O LEFELAU TROSEDDU DROS Y CYFNOD ADRODD**

**Cefndir:**

1) Mae'r Heddlu'n edrych ar ffigurau trosedd yn gyson, ac yn adolygu pob newid yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae unrhyw newidiadau sylweddol yn destun dadansoddiad pellach. Yna bydd meysydd problemus yn cael eu hadolygu, gyda chynlluniau plismona ar waith i fynd i'r afael arnynt. Mae dulliau plismona lleol yn cynnwys gosod adnoddau bob dydd i fynd i'r afael â materion wrth iddynt ddod i'r amlwg.

2) Mae'r Bartneriaeth yn derbyn data ar lefelau troseddu bob chwarter, a bydd y dulliau 'meddal' neu dymor hir o fynd i'r afael â thueddiadau trosedd yn sail i'r cynllun partneriaeth. Y data a ddefnyddiwn yn gyffredinol yw data cymhariaeth rhwng y cyfnod yn y flwyddyn gyfredol, a'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

**DATA TROSEDDU**

1) **Isod mae'r data troseddu diweddaraf Ynys Môn ar gyfer Hydref 2023 gan y Dadansoddwr Partneriaeth o fewn Heddlu Gogledd Cymru. Mae hyn yn amlinellu'r ffigyrau ar gyfer y flwyddyn hyd yma, o gymharu â blynyddoedd blaenorol a hefyd y darlun ar draws Gogledd Cymru.**

| Ynys Mon - Crime & Incident Data | Fiscal Year | | % Change (YTD) | North Wales % Change (YTD) |
|---|---|---|---|---|
| | 2022/23 (YTD) | 2023/24 (YTD) | | |
| **All Victim Based Crime** | 2,542 | 2,028 | **-20.2%** | *-13.8%* |
| **Violence with injury** | 308 | 241 | **-21.8%** | *-9.8%* |
| **Violence without injury** | 489 | 450 | **-8.0%** | *-12.6%* |
| **Stalking & Harassment** | 527 | 392 | **-25.6%** | *-17.9%* |
| **Sexual offences** | 107 | 90 | **-15.9%** | *-14.7%* |
| **All Acquisitive Crime** | 417 | 386 | **-7.4%** | *2.7%* |
| **Burglary Residential** | 37 | 36 | **-2.7%** | *-13.3%* |
| **Burglary - Business and Community** | 13 | 15 | **15.4%** | *-16.7%* |
| **Robbery** | 2 | 5 | **150.0%** | *-7.1%* |
| **Vehicle Crime** | 35 | 20 | **-42.9%** | *-11.6%* |
| **Theft and Handling** | 330 | 310 | **-6.1%** | *10.1%* |
| **Criminal Damage & Arson** | 307 | 260 | **-15.3%** | *-11.5%* |
| **Domestic Crime** | 564 | 427 | **-24.3%** | *-19.1%* |
| **Domestic Incidents (non-crime)** | 250 | 191 | **-23.6%** | *1.8%* |
| **Hate Crime** | 56 | 44 | **-21.4%** | *-19.1%* |
| **Anti-Social Behaviour** | 754 | 635 | **-15.8%** | *-10.2%* |

**O'r tabl uchod fe sylwch leihad yn nifer y troseddau ar draws y rhan fwyaf o fathau o droseddau. Achosir hyn gan newidiadau diweddar i Gofnodi Troseddau'r Swyddfa Gartref ym mis Ebrill 2023.**

Cyn Ebrill 2018, dim ond y prif droseddau a gofnodwyd; er enghraifft, pe bai rhywun yn adrodd am ymosodiad ac yn datgelu ei fod yn rhan o achos aflonyddu parhaus, dim ond yr ymosodiad fyddai wedi cael ei gofnodi. Ym mis Ebrill 2018, golygodd newidiadau'r Swyddfa Gartref i gofnodi troseddau y byddai'r ymosodiad **A'R** aflonyddu yn cael ei gofnodi fel troseddau ar wahân. Arweiniodd y cofnodi troseddau eilaidd hyn at gynnydd mewn niferoedd, yn enwedig mewn troseddau ymddygiad megis stelcian aflonyddu, ymddygiad gorfodol a rheoli a throseddau trais yn erbyn yr unigolyn.

Fodd bynnag, ym mis Ebrill 2023, yn dilyn adolygiad gan yr NPCC, gwnaed y penderfyniad i ddychwelyd at y dull 'prif drosedd' o ymdrin â rheolau cyfrif y Swyddfa Gartref, a fydd yn ceisio cofnodi'r drosedd sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar ddioddefwr, yn hytrach na chofnodi cofnodion lluosog. Yn y pen draw, bydd hyn yn arwain at ostyngiadau yn nifer y troseddau a gofnodir, ond nid o reidrwydd mewn trosedd yn gyffredinol.

Dros hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2023/24, rydym eisoes yn gweld y gostyngiadau hyn yng Ngogledd Cymru, gyda throseddau seiliedig ar ddioddefwyr a gofnodwyd i lawr 13.8% sy'n cyfateb i dros 4,500 yn llai o droseddau. Bydd data troseddau a gofnodwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 yn sefydlu llinell sylfaen newydd yn dilyn y newidiadau cofnodi, **gyda adlewyrchiad mwy cywir o'r tueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn 2024/25.**

Mae'r data ar gyfer Ynys Môn hefyd yn adlewyrchu hyn, gyda 14 o'r 16 categori yn y tabl uchod yn dangos gostyngiadau, gyda rhai yn ostyngiadau eithaf sylweddol o ran niferoedd a newid canrannol. Mae'r ddau gategori lle gwelwyd cynnydd (Bwrgleriaeth – Busnes a Chymuned a Lladrad) yn gategorïau cyfaint isel, felly dim ond ychydig iawn o gynnydd sydd ar gael o ran y niferoedd cyffredinol.

Un maes sy'n mynd yn groes i'r duedd yn Ynys Môn, o gymharu â Gogledd Cymru gyfan, yw Dwyn a Thrin, gyda gostyngiad o -6.1% o'i gymharu â'r cynnydd cyffredinol o 10.1% a welwyd ar draws Gogledd Cymru. Mae mwyafrif y cynnydd a welwyd yng Ngogledd Cymru yn cael ei achosi gan gynnydd mewn troseddau dwyn o siopau, sy'n disgyn i'r categori Dwyn a Thrin.

Mae Digwyddiadau Domestig (Ddim yn Drosedd) yn alwadau a dderbynnir gan Ystafell Reoli Heddlu Gogledd Cymru sydd ag elfen ddomestig iddynt; fodd bynnag nid ydynt yn drosedd ac nid ydynt yn cael eu cofnodi fel trosedd, felly ni fyddant yn cael eu heffeithio gan newidiadau i gofnodion y Swyddfa Gartref. Maent yn cynnwys digwyddiadau fel anghydfodau domestig llafar, lle nad oes unrhyw droseddau wedi digwydd. Mae'r digwyddiadau hyn yn arwain at atgyfeiriad CID 16, i'w ystyried i'w rannu â'r partneriaid diogelu perthnasol. Er bod cynnydd bychan i'w weld ar draws Gogledd Cymru gyfan, bu gostyngiad canrannol sylweddol o alwadau o'r fath yn Ynys Môn yn 2023/24 o gymharu â 2022/23.

Nid yw digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol ychwaith yn cael eu cofnodi fel troseddau ac felly ni fyddant yn cael eu heffeithio gan newidiadau i gofnodion y Swyddfa Gartref. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Ynys Môn wedi gweld gostyngiad hyd yma o -15.8% yn 2023/24 o gymharu â'r un cyfnod yn 2022/23. Mae hyn yn cyfateb i dros 100 yn llai o ddigwyddiadau yn cael eu hadrodd yn Ynys Môn yn y 6 mis rhwng Ebrill a Medi 2023.

**GWAITH WEDI'I GWBLHAU YN YSTOD 2023**

1) Er mwyn datblygu'r cynllun blynyddol, ymgynghorwyd a phartneriaid ar unrhyw weithgareddau neu brosiectau sydd ar y gweill a oedd yn gysylltiedig a blaenoriaethau Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru. Mae cynllun 2023-24 (ynghlwm) yn nodi gweithgaredd yr oedd y Bartneriaeth am ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r gweithgaredd yn cael ei fonitro a'i adrodd yn chwarterol i'r PDC, fel y gellir cytuno ar unrhyw weithgaredd adferol os oes angen.

2) Hefyd, rhannwyd ffigyrau trosedd yn chwarterol drwy adroddiad perfformiad a baratowyd gan ddadansoddwr yr Heddlu, fel y gellir trafod unrhyw dueddiadau a gweithgaredd ychwanegol sydd ei angen.

3) Mae gennym ddyletswydd statudol o dan y Ddeddf Trais Domestig, Trosedd a Dioddefwyr 2004 i sefydlu Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHRs / diffiniad uchod). Yn anffodus, bu'n ofynnol i'r Bartneriaeth gomisiynu 5 DHR ychwanegol eleni. Mae'n anochel bod gan y gwaith hwn oblygiadau sylweddol a pharhaus o ran adnoddau, gan gynnwys cymeradwyo'r Swyddfa Gartref a all fod yn broses hir ac chymhleth iawn.

4) Crynodeb o’r gwaith a gwblhawyd eleni:

a) Ddaeth prosiect Strydoedd mwy Diogel 4 yng Nghaergybi i ben ym mis Medi. Roedd cydweithio rhwng yr Heddlu, yr Awdurdod Lleol a’r Cyngor Tref yn golygu bod dros £600k wedi’i wario ar waith a mentrau yn yr ardal. Roedd yn cynnwys: gwella goleuadau ac estyniad i deledu cylch cyfyng, sesiynau gyda’r Heddlu a dosbarthiadau hunanamddiffyn i bobl ifanc, a phecynnau atal trosedd i breswylwyr.

b) Daeth y Ddyletswydd Trais Difrifol i rym ym mis Ionawr 2023, gan ei wneud yn ofynnol i awrdudodau penodedig gydweithio i baratoi a gweithredu strategaeth ar gyfer atal a lleihau trais difrifol yn yr ardal. Eleni, sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen rhanbarthol gyda chynrychiolaeth o uwch swyddogion cyfrifol ar draws awdurdodau perthnasol. I ffurfio sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Strategaeth, crëwyd Is-grŵp Data a Thystiolaeth hefyd, i ddatblygu darlun lleol o drais difrifol. Yn dilyn diwygiadau diweddar i'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn, mae gan y PDC rôl benodol mewn gweithredu strategol ar sail tystiolaeth ar drais difrifol.

c) Un elfen o’r gwaith o dan y Ddyletswydd Trais Difrifol oedd y Gronfa ‘Dyfodol Heb Drais’ a ddarparwyd gan y Swyddfa Gartref, i fuddsoddi mewn prosiectau sy’n cefnogi plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o drais yn ein cymunedau. O dan y cyllid hwn, gwnaed cais llwyddiannus yn Ynys Môn i gyflwyno prosiect i wella sgiliau gweithwyr proffesiynol a darparu sesiynau addysgol cadarnhaol yn gysylltiedig â gweithgaredd addysgol awyr agored. Bydd y prosiect yn cael ei gyflwyno dros y misoedd nesaf.

d) Gan weithio’n agos gyda Thimau Plismona Lleol, fe wnaethom nodi meysydd a allai elwa o Gronfa Ffyniant Cyffredin Llywodraeth San Steffan. Un o’r blaenoriaethau buddsoddi yn y gronfa yw ‘Cymuned a Lle’, a nod un o’r Genhadaeth Lefelu i Fyny yw y bydd lladdiadau, trais difrifol, a throseddau yn y gymdogaeth wedi gostwng erbyn 2030. Fel rhan o’r gwaith hwn, rydym wedi nodi lleoliadau penodol yn Ynys Môn lle mae troseddau’n digwydd neu le nad yw pobl yn teimlo’n ddiogel, a gellid cyflwyno teledu cylch cyfyng ychwanegol. Yr amcan yw gwella canfyddiadau o ddiogelwch a lleihau troseddau yn y gymdogaeth. Disgwylir canlyniad y cais ar hyn o bryd.

e) Mewn cydweithrediad ag Arweinydd Diogelu’r ALl, mae’r PDC yn goruchwylio’r gwaith o gyflawni Atal yn yr ardal (dyletswydd yn Neddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 ar awdurdodau penodol i roi sylw dyledus i’r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth). Yn dilyn yr ymarfer sicrwydd meincnodi blynyddol gyda’r Cynghorydd Rhanbarthol Atal, cawsom gadarnhad ym mis Mai bod Ynys Môn yn bodloni gofynion y Ddyletswydd yn y rhan fwyaf o feysydd. Rydym wedi parhau i weithio'n adeiladol ac ar y cyd â'r Cynghorydd Rhanbarthol i ddatblygu unrhyw feysydd i'w gwella.

f) Cyflwynwyd cais llwyddiannus i'r Gronfa Atal Radicaleiddio gan y Swyddfa Gartref y llynedd, ar gyfer prosiect i wella sgiliau meddwl yn feirniadol a llythrennedd yn y cyfryngau i bobl ifanc. Cyflwynwyd y prosiect ym mis Mawrth eleni ac arweiniodd at 206 o fyfyrwyr yn mynychu sesiynau Llythrennedd yn y Cyfryngau. Yn dilyn eu cyfranogiad, dangosodd myfyrwyr welliant nodedig yn eu gallu i adnabod a thargedu gwybodaeth anghywir a gallent lywio'r wybodaeth y maent yn ei defnyddio ar-lein yn hyderus.

g) Fe wnaethom barhau i gydlynu'r Adolygiadau Dynladdiad Domestig sydd ar y gweill yn y Sir. Mae hyn wedi cynnwys mynychu Cyfarfodydd Panel drwy gydol y flwyddyn, ymchwilio i gefndir yr achosion, a rhoi mewnbwn i drafodaethau ynghylch unrhyw gyfleoedd a gollwyd, gwersi a ddysgwyd ac argymhellion.

h) Fe wnaethom barhau i fynychu’r grŵp rhanbarthol i weithredu Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol Gogledd Cymru 2020-24. Mae'r Strategaeth yn ceisio lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol i'r unigolyn a'r gymdeithas ehangach ac mae'n amlygu'r

angen am ddull system gyfan o weithio mewn partneriaeth ar y cyd. Mae aelodaeth y grŵp hwn yn cynnwys y Bwrdd Iechyd, y Bwrdd Cynllunio Ardal, cynghorau ar draws y rhanbarth a darparwyr gwasanaethau cymorth lleol.

i) Yn dilyn adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth, ailenwyd y gwasanaeth allgymorth Lleihau Niwed Camddefnyddio Sylweddau yn Wasanaeth Gwella Bywydau Gogledd Cymru. Bydd yn cadw'r ffocws allgymorth, ond bydd y cymorth cyffredinol a ddarperir yn cael ei wella gyda staff arbenigol newydd i gyflawni llwyth achosion o achosion mwy cymhleth.

j) Eleni, rydym yn gweithio gyda'r Arweinydd Rhanbarthol ar gyfer Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed sydd newydd yn ei swydd. Mae hyn yn cynnwys presenoldeb yn y fforwm rhanbarthol i ddatblygu cynllun rhanbarthol yn seiliedig ar y strategaeth genedlaethol. Mae dysgu gan y DHRs wedi amlygu'r cysylltiad rhwng hunanladdiad a cham-drin domestig, a bydd codi ymwybyddiaeth o hyn yn un o'n blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

k) Wedi'i gadeirio gan yr Heddlu, mae grŵp SOC Ynys Môn a Gwynedd (Troseddau Cyfundrefnol Difrifol) wedi parhau i gyfarfod, gan roi cyfle gwerthfawr i'r Heddlu ac Asiantaethau Partner drafod pryderon lleol a rhannu gwybodaeth am Gangiau Troseddau Cyfundrefnol yn yr ardal.

**GWAITH AR Y GWEILL:**

1. Parhau i weithredu'r prosiectau lleol a nodwyd yn y cynllun ar gyfer Ch3 – drwy'r broses fonitro.
2. Parhau i gefnogi gweithrediad y Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol Ranbarthol.
3. Parhau i fynychu'r grŵp tasg a gorffen rhanbarthol i baratoi ar gyfer y Ddyletswydd Trais Difrifol, fel bod yr ALI yn y sefyllfa orau i fodloni'r gofynion newydd yn brydlon. Cyflwyno prosiect Dyfodol Heb Drais.
4. Parhau i weithio'n agos gyda Chynghorydd Rhanbarthol Atal newydd y Swyddfa Gartref i ddiweddaru trefniadau Atal a Sianel yr ALI, gan weithio ochr yn ochr â'n partneriaid yn y Grŵp Cyflawni Rhanbarthol Atal newydd. Gweithio gyda'r partneriaid yn y Grŵp Cyflawni Rhanbarthol Atal i roi Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar waith.
5. Unwaith y byddant wedi'u cwblhau, cymeradwyo cynnwys yr adroddiadau DHR a'u cyflwyno i'r Swyddfa Gartref ar gyfer proses Sicrhau Ansawdd cyn eu cyhoeddi.
6. Os yn llwyddiannus, cyflwyno prosiect teledu cylch cyfyng y Gronfa Ffyniant Cyffredin mewn tair o'n trefi. Rheoli prosiect, lliniaru risg a chydweithio rhwng PDC, gwasanaeth darparwyr teledu cylch cyfyng, yr adran Goleuadau Stryd a Chynghorau Tref.

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** **[gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Nid yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ddatblygiadau, y tybir iddynt gael effaith anffafriol ar unrhyw un o'r grwpiau a warchodir |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Nid yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ddatblygiadau, y tybir iddynt gael effaith anffafriol ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau |

| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
|---|
| Nid yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ddatblygiadau, y tybir iddynt gael effaith anffafriol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg |
| |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Nid yw'r adroddiad yn nodi unrhyw oblygiadau ariannol penodol i'r Awdurdod Lleol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| 1. Cynllun 23-24 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Cynllun gwaith y Bwrdd Rhanbarthol Gogledd Cymru Fwy Diogel |

**Cynllun Blynyddol 2023-24 Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn**

Cefndir

Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn grŵp o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i edrych ar sut orau i fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn. Mae'r gofyn i gael partneriaeth o'r fath mewn lle ar lefel leol yn rhan o'r gyfraith, sef Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae gan nifer o sefydliadau ran i'w chwarae o fewn y bartneriaeth, gan gynnwys yr awdurdod lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth tân ac achub a'r bwrdd iechyd.

Mae gennym gyfrifoldebau dan Ddeddf 1998 am nifer o feysydd, gan gynnwys – lleihau trosedd ac anhrefn, lleihau aildroseddu, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ogystal, mae dyletswydd arnom i gomisiynu adolygiadau Lladdiad Domestig mewn rhai amgylchiadau penodol.

Bydd ein cynllun yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau Strategaeth Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Fwy Diogel, sef:

1) Atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
2) Mynd i'r afael â throseddau treisgar
3) Mynd i'r afael â throseddau trefniadol difrifol
4) Diogelu ac adeiladu cymunedau gwydn a chynnal diogelwch y cyhoedd

Cawn ein llywio hefyd gan flaenoriaethau ac amcanion y canlynol:

- Asesiad Strategol Gogledd Cymru
- Cynllun Heddlu a Throsedd Heddlu Gogledd Cymru (2021-24)
- Strategaeth Bregusrwydd a Cham-fanteisio Gogledd Cymru (2021-24)
- Cynllun Gorchfygu Troseddu'r Swyddfa Gartref (2021)

**Cynllun gwaith ar gyfer y 12 mis nesaf**

| # | Gweithred | Allbwn | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Amserlen | Cyfrannu tuag at |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Safonau Masnach i weithio ochr yn ochr â Heddlu Gogledd Cymru ar brosiect atal galwadau ar gyfer unigolion y nodwyd eu bod yn darged neu'n ddioddefwyr galwadau di-wahoddiad. | Atalwyr galwadau yn cael eu prydlesu i ddefnyddwyr a dargedwyd gan alwadau di wahoddiad | Lleihau'r potensial am drosedd | Safonau Masnach Gwynedd ac Ynys Môn | Drwy gydol 2023-24. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 4 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 2 | Mae Safonau Masnach yn ymateb i wybodaeth gan y tîm Sgamiau Cenedlaethol ar ddioddefwyr sgâm posibl. Mae ymrwymiad i gysylltu â 10 o bobl bob mis sydd wedi cael eu targedu gan sgamwyr i ddarparu gwybodaeth a chyngor. | Unigolion a dargedwyd yn flaenorol yn derbyn cyngor a gwybodaeth felly'n lleihau'r tebygolrwydd o gael eu herlid eto | Gostyngiad mewn dioddefwyr ailadroddus<br><br>Mwy o ymwybyddiaeth o sgamiau | Safonau Masnach Gwynedd | Drwy gydol 2023-24. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 4 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 3 | Bydd Safonau Masnach yn gweithio ochr yn ochr â Heddlu Gogledd Cymru gyda rhaglen archwilio ac ymweliadau wedi'u targedu ag eiddo sy'n gwerthu nwyddau â chyfyngiad oedran. Mae hyn yn ymgais i gyfyngu ar argaeledd cynhyrchion â chyfyngiad oedran (fel alcohol, tybaco a vapes) a all arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion trefn gyhoeddus mewn cymunedau gwledig. | Pryniannau prawf mewn sefydliadau lleol i ddeall cydymffurfiaeth â Challenge 25 | Gostyngiad mewn gwerthiant i rai dan oed | Safonau Masnach Ynys Môn a Gwynedd | Drwy gydol 2023-24. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 1 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel**<br><br>**Blaenoriaeth 4 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | Mae Gwarchod Y Cyhoedd yn addasu'r ffordd maent yn gweithio gyda phartneriaid yng Ngwasanaethau Cymdeithasol, Heddlu Gogledd Cymru ac asiantaethau eraill i adnabod dioddefwyr troseddau ar yr Ynys. Gallai'r rhain fod yn ddioddefwyr sgâm (ffôn, post a seibir) a/neu ddioddefwyr troseddau stepen drws (galwyr di-wahoddiad neu fasnachwyr twyllodrus). | Gwell arferion gwaith er mwyn cynyddu rhannu gwybodaeth fuan | Gwella adnabyddiaeth a helpu i ddarparu ymyrraeth gynnar | Gwarchod y Cyhoedd Ynys Môn | Drwy gydol 2023-24. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 4 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 5 | Mae Adran Tai o fewn Cyngor Gwynedd yn datblygu nifer o brosiectau yng Ngwynedd ar hyn o bryd sy'n cwmpasu llawer o'r blaenoriaethau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Rhai o'r gwaith yw:<br>Tair fflat hunangynhwysol gyda lefel uchel o gefnogaeth a gobeithiwn y bydd yn agor o gwmpas yr haf.<br>Deuddeg fflat gyda chefnogaeth gyda'r bwriad o agor y prosiect ym mis Tachwedd eleni.<br>Uwch Weithiwr Achos Atebion Tai ac Iechyd Meddwl wedi dechrau ym mis Ionawr 2023. Bydd y rôl hon yn helpu i feithrin perthynas â'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl a cheisio atal digartrefedd a sicrhau bod llety ar gael ar ôl rhyddhau o'r ysbyty. | Bydd 5 pod newydd ar gyfer llety dros dro yn cael eu hadeiladu. Fflatiau yn cael eu paratoi gyda lefelau gwahanol o gefnogaeth. | Gwasanaethau mewn gwell sefyllfa i ddarparu Cymorth ac ymyrraeth gynnar i unigolion<br><br>Perthynas waith agosach gyda chleientiaid a gweithwyr achos | Adran Tai ac Eiddo Gwynedd | Drwy gydol 2023-24. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 1 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cynllun Lesu Preifat yn cael ei ddatblygu gan y Tîm Digartrefedd i ddod â mwy o landlordiaid preifat fel opsiwn i ailgartrefu'r rhai sy'n ddigartref a lleihau'r defnydd o wely a brecwast. | | | | | |
| 6 | Gweithredu'r Prosiect Carchar Mewn Cyrraedd Gogledd Cymru a ariennir gan yr BCA. A fydd yn cefnogi pobl sy'n cael eu rhyddhau o garchardai ledled y DU yn ôl i Ogledd Cymru, sydd wedi datgelu problemau camddefnyddio sylweddau cymhleth yn flaenorol | 2x Cydlynwyr Mewn Cyrraedd yn eu swyddi.<br><br>Er mwyn sicrhau y bydd pob un wedi cael ymyriadau ar waith cyn eu rhyddhau. Bydd y rhain yn benodol i anghenion yr unigolyn a byddant yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ofynion tai, budd-daliadau a meddyginiaeth. | Y nod fydd i bob person fod yn fwy gwybodus, yn cael ei gefnogi'n well ac wedi'i baratoi'n well, ar gyfer y cyfnod pontio yn ôl i'r gymuned<br><br>Bydd y cydlynwyr hefyd yn gyfrifol am ddatblygu rhaglen cymorth gan gymheiriaid o gysylltwyr cymunedol sy'n cynnwys gwirfoddolwyr sydd â phrofiad byw o bontio tebyg, i wneud cyswllt ar unwaith 'wrth y giât'. | Donna Jones (BCA) | Drwy gydol 2023-24. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Cynllun Camddefnyddio Sylweddau Rhanbarthol** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | Datblygiad pellach o wasanaeth allgymorth/lleihau niwed cydweithredol Gogledd Cymru. | Trosglwyddo i fodel gwasanaeth diwygiedig Gwella Bywydau, fel yr argymhellwyd yn yr adolygiad gwasanaeth diweddar. (yn amodol ar gytuno ar gynnig ariannu gan Lywodraeth Cymru) | Gwasanaeth diwygiedig yn ei le gyda mwy o gapasiti i gefnogi anghenion y rhai ag Anghenion Cymhleth yn ymwneud â Chamddefnyddio Sylweddau, Iechyd Meddwl a Thai yn well. | Donna Jones (BCA) | Drwy gydol 2023-24. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Cynllun Camddefnyddio Sylweddau Rhanbarthol** |
| 8 | Byddwn yn sicrhau bod y cyfrifoldebau a roddir ar y PDC mewn perthynas â chynnal adolygiadau dynladdiad domestig (DHRs) yn cael eu cwblhau'n briodol. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu sicrhau bod paneli adolygu priodol, cadeiryddion ac awduron yn cael eu comisiynu a bod adroddiadau adolygu terfynol yn cael eu cyflwyno a'u derbyn gan y Swyddfa Gartref. | Comisiynu paneli adolygu, cadeiryddion ac awduron ar gyfer y DHRs<br><br>Ymgymryd â DHR a chyflwyno i'r Swyddfa Gartref | Mae'r cyfrifoldebau a roddir ar y PDC o ran cynnal Adolygiadau DHR yn cael eu cwblhau'n briodol. Cynllun gweithredu mewn lle i ymateb i argymhellion – gwersi a ddysgwyd er mwyn gwella gwasanaethau i'r dyfodol | PDC | Parhaus | **Blaenoriaeth 2 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | Mae gan holl aelodau'r bartneriaeth rai cyfrifoldebau mewn perthynas â rhaglen *Atal* y Swyddfa Gartref (radicaleiddio mewn perthynas â gweithgaredd terfysgol). Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddiweddaru yn ystod y flwyddyn hon o ran datblygu a gwella cynlluniau/hyfforddiant/gofynion Sianel gyfredol. Bydd y gwaith yn golygu gweithio'n agos gyda chynghorydd rhanbarthol newydd y Swyddfa Gartref.<br><br>Mae Cyngor Ynys Môn yn bwriadu ymgorffori'r Polisi Dim Llwyfan i dynnu sylw lleoliadau at y risg sy'n gysylltiedig â'n lleoliadau'n cael eu defnyddio gan grwpiau/siaradwyr y gwyddys eu bod yn ddylanwadau radicalaidd ac i weithio gyda phartneriaid Gogledd Cymru o ran ymgysylltu â'r sector gwirfoddol a chymunedol (VCS) sefydliadau a grwpiau i godi ymwybyddiaeth o Atal. | Diweddaru cynllun Atal Trefnu sesiynau hyfforddi Prevent ar gyfer staff Awdurdodau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn Adolygu trefniadau Sianel | Cyfrannu at Gynllun Gweithredu Bwrdd CONTEST rhanbarthol<br><br>Cyfrannu at ganlyniadau SG Atal o leihau radicaleiddio | PDC / Adrannau perthnasol Awdurdod Lleol | Drwy gydol 2023-24. | **Cynllun Atal y Swyddfa Gartref**<br><br>**Cynllun Bwrdd CONTEST Rhanbarthol** |
| 10 | Gweithio ar elfennau o Ddyletswydd Trais Difrifol . Rhannu gwybodaeth a chynllunio gydag adrannau perthnasol. | Datblygu asesiad anghenion rhanbarthol yng Ngogledd Cymru i nodi baich a thueddiadau | Partneriaid yn ymwybodol o gyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd ac mewn sefyllfa well i gyflawni pan ddaw i rym | PDC | Drwy gydol 2023-24. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 2 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | trais yn y rhanbarth<br><br>Ymateb i'r asesiad anghenion yn ôl yr angen ar ffurf strategaeth benodol | | | | |
| 11 | Ceisiadau Camerâu TCC i'r Gronfa Ffyniant Cyffredin yng Ngwynedd ac Ynys Môn. | Ceisiadau wedi eu cyflwyno i'r gronfa i'r ddwy sir. | Os yn llwyddiannus - galluogi'r awdurdod lleol i roi amrywiaeth o offer atal trosedd ar waith a chynyddu teimladau'r cyhoedd o ddiogelwch | PDC | Ch1 2023 a thu hwnt os yn llwyddiannus | **Blaenoriaeth 1 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel**<br><br>**Blaenoriaeth 4 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 12 | Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd Môn yn darparu monitro, sgrinio, cefnogaeth ac ymyrraeth i Blant 10-17 oed sydd wedi eu hadnabod gan Heddlu Gogledd Cymru o ddigwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd unrhyw blentyn sy'n destun rhybudd ymddygiad gwrthgymdeithasol (cerdyn melyn) gan HGC yn cael ei gyfeirio at y gwasanaeth, bydd digwyddiadau unigol ac ar hap yn cael eu cofnodi, eu | Cymorth ar ffurf Asesu, Cynllunio, Ymyrraeth, a chyflwyno dros gyfnod o 12 wythnos (Plentyn yn Gyntaf a Gwybodus am Drawma) gydag | Lleihau materion ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol | Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | Drwy gydol 2023-24. | **Blaenoriaeth 1 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | gwerthuso a'u monitro. Os bydd plentyn wedyn yn cael rhybuddion dilynol ymhen 3 mis bydd y gwasanaeth yn cysylltu â'r teulu i amlinellu'r pryderon ac yn cynnig ymyrraeth a chymorth i atal digwyddiadau neu ymddygiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol pellach rhag gwaethygu i droseddu. | anghenion a chryfderau'r plentyn yn ganolog i'r dull gweithredu. | | | | |
| 14 | Hyfforddiant i holl staff Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (ADY a CH) o fewn yr Adran Addysg effaith trawma ar blant a phobl ifanc drwy Ysgolion sydd yn wybodus o drawma.<br>Adran ADY a CH sydd yn rhan o'r Adran Addysg Gwynedd ac Ynys Môn yn hyrwyddo effaith o drawma yn ein hysgolion a chynnig cwrs Diploma yn y maes. Hyfforddiant i holl staff ADY a CH yn y maes profiadau Niweidiol yn ystod plentyndod plant (ACE) i fod yn wybodus o'r ffactorau yma ac yr effaith ar blant a phobl ifanc ynghyd a'r gallu i ddatblygu sgiliau allweddol wrth ymateb i ymddygiadau heriol.<br><br>Cyd weithio gyda RASAC i gyflwyno sesiynau "Paid â dwyn fy nyfodol " i ddisgyblion blwyddyn 10 a 11. | Cyflwyno hyfforddiant i staff.<br><br>Cydweithio gyda ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn. | Staff fod yn ymwybodol o ddisgyblion sydd mewn risg o gal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) a chodi ymwybyddiaeth disgyblion fod pawb gyda photensial a chyfleoedd i edrych i'r dyfodol. | Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (Adran Addysg) | Drwy gydol 2023-2024. | **Blaenoriaeth 1 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |

Tudalen 57

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 15 | Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (ADY a CH) o fewn yr Adran Addysg i roi hyfforddiant ar effaith trawma ar blant a phobl ifanc sydd mewn cartref ble mae rhiant (rhieni) yn defnyddio cyffuriau .<br><br>Cyd weithio gyda Be' di'r sgôr mewn ysgolion. Yr angen i gyd weithio yn well yn enwedig gyda phobl ifanc sydd yn cael eu gwahardd o ysgol am ddefnydd cyffuriau ac mewn achosion o bryder am unigolion o dan ddylanwad eraill (Llinellau Sirol) | Cyflwyno hyfforddiant i staff.<br><br>Cydweithio gyda Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i weithio gydag ysgolion lle mae achosion o waharddiadau a chyffuriau. | Gweithio gyda phobl ifanc sydd yn o gyffuriau i'r ysgol ac atal dylanwad llinellau siriol. | Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad a Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. | Drwy gydol 2023-2024. | **Blaenoriaeth 1 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel**<br><br>**Blaenoriaeth 3 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 16 | Cyngor Ynys Môn oedd awdur y Llwybrau Caethwasiaeth Fodern Amlasiantaethol Rhanbarthol. Bydd y rhain yn cael eu lansio o fewn yr Awdurdod Lleol yn y flwyddyn newydd. (Camau allweddol, a adlewyrchir yn y cynllun gweithredu diogelu corfforaethol). Cyflwyno E-ddysgu mandadol Caethwasiaeth Fodern | Parhau i gyflwyno'r pecyn hyfforddi | Gwell ymwybyddiaeth mewn Awdurdodau Lleol o Gaethwasiaeth Fodern i alluogi cyfeirio effeithiol at wasanaethau cymorth | Adrannau hyfforddiant Cyngor Ynys Môn | Drwy gydol 2023-24. | **Blaenoriaeth 2 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 17 | Monitro cynnydd hyfforddiant Gofyn a Gweithredu - Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol fel sy'n ofynnol yn Neddf | Parhau i gyflwyno'r pecyn hyfforddi | Gwell ymwybyddiaeth mewn Awdurdodau | Adrannau hyfforddiant y ddwy sir | Drwy gydol 2023-24. Yn cael ei | **Blaenoriaeth 2 ar Gynllun Gogledd** |

Tudalen 58

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cam-drin Ddomestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. | Cyswllt gyda'r Swyddog Datblygu Hyfforddiant Rhanbarthol ac adrannau hyfforddiant perthnasol i fonitro cynnydd | Lleol o gam-drin domestig i alluogi cyfeirio effeithiol at wasanaethau cymorth | | fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Cymru Fwy Diogel** |
| 18 | Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn parhau i gyflwyno rhaglen ymyrraeth ieuenctid Phoenix. Hefyd yn cynnal ymyriadau gyda phlant ifanc sydd wedi dangos tuedd i hoffi tân – FACE (fire awareness child education). | Parhau i gyflwyno'r rhaglen ymyrraeth yn y rhanbarth | Gostyngiad mewn tanau/YGG Gostyngiad yn nifer y troseddwyr ailadroddus | GTAGC | Drwy gydol 2023-24. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 1 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 19 | Mae trais yn y cartref yn parhau i fod yn faes gwaith blaenoriaeth i'r heddlu gyda mentrau pwrpasol yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys ymgyrchoedd ymwybyddiaeth.<br><br>Mae hyfforddiant materion trais yn y cartref yn dal i gael ei gyflwyno ar draws Heddlu Gogledd Cymru i'r holl weithlu er | Ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a mentrau i'w cynnal gan yr Heddlu | Mwy o ymwybyddiaeth ac argaeledd gwybodaeth am wasanaethau cymorth trais yn y cartref i'r cyhoedd ac ar draws yr Heddlu | Heddlu Gogledd Cymru | Drwy gydol 2023-24. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 2 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | mwyn cynyddu dealltwriaeth o natur gymhleth cam-drin domestig. | Cyflwyno hyfforddiant i'r holl weithlu | | | | |
| 20 | Bydd yr Heddlu'n defnyddio fan weledol symudol yn ystod misoedd yr Haf i wella presenoldeb plismona bro mewn ardaloedd yr effeithir arnynt gan ymddygiad gwrthgymdeithasol a mwy o densiwn cymunedol o ganlyniad i gynnydd yn y boblogaeth dymhorol. | Lleoli fan mewn ardaloedd a nodwyd | Gwell presenoldeb mewn ardaloedd problemus<br>Cynyddu teimladau o ddiogelwch | Heddlu Gogledd Cymru | Haf 2023 | **Blaenoriaeth 1 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 21 | Bydd yr heddlu'n cynnal mentrau atal mewn meysydd carafanau dros gyfnod yr Haf oherwydd bod lleoliadau o'r fath yn fan problemus ar gyfer troseddau rhywiol ac adrodd domestig dros gyfnod yr haf. | Gwaith paratoi yn y cyfarfodydd twristiaeth a lleihau galw tymhorol gan yr Heddlu<br><br>Nodi meysydd carafanau perthnasol<br><br>Trefnu a chynnal ymweliadau yn y safleoedd hyn | Cefnogi gwaith atal ar gyfer troseddau rhywiol a domestig<br>Gostyngiad mewn troseddu o'r fath | Heddlu Gogledd Cymru | Haf 2023 | **Blaenoriaeth 2 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 22 | Bydd gwaith Rheolwr Troseddwyr Integredig yn parhau i ganolbwyntio ar leihau'r risg o aildroseddu. | Camau gweithredu a nodwyd yn cael | Amcanion wedi'i gyflawni'n lleol | Heddlu Gogledd Cymru | Drwy gydol 2023-24. Yn cael ei | **Cynllun IOM Rhanbarthol** |

Tudalen 60

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | eu rhoi ar waith yn lleol | | | fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | |
| 23 | Partneriaeth barhaus gyda Phrifysgol Bangor i wella diogelwch strydoedd. Mae swyddogion Heddlu Ysgolion yn parhau i ddarparu gwers Anaf Cudd (DA) ac Na yn golygu Na (troseddau rhywiol) i ysgolion lleol. | HGC darparu gwersi i ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn. | Codi ymwybyddiaeth am drais domestig a rhywiol. | Heddlu Gogledd Cymru | Drwy gydol 2023-24. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 1 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 24 | Cyflwyno Nid ydym yn prynu trosedd – canolbwyntio ar atal, cefnogi dioddefwyr a darparu gwasanaethau ar gyfer troseddau meddiangar. | Negeseuon rhybudd ar y cyfryngau cymdeithasol a'r Gymuned yn rheolaidd gyda chyngor atal ar y pynciau. | Cyflwyno mewnbwn penodol i rannau o'r gymuned sy'n agored i niwed | Heddlu Gogledd Cymru | Drwy gydol 2023-24. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 1 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 25 | Defnyddiwyd cyllid strydoedd mwy diogel i gynyddu amlygrwydd yr Heddlu a dylunio i atal trosedd yng Nghaergybi. Gwaith penodol yn ymwneud â phartneriaid a chodi ymwybyddiaeth mewn busnesau lleol fel rhan o'r ymateb hwn i Drais yn erbyn menywod a merched yn arbennig. | Cydweithio gyda busnesau lleol yng Nghaergybi. | Gwell presenoldeb mewn ardaloedd problemus Cynyddu teimladau o ddiogelwch. Cefnogi gwaith atal ar gyfer troseddau rhywiol a domestig | Heddlu Gogledd Cymru | Drwy gydol 2023-24. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 1 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gostyngiad mewn troseddu o’r fath | | | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **22.11.2023** |
| **Pwnc:** | **Y Gronfa Ffyniant Bro – Caergybi: Trawsnewidiad â diwylliant a threftadaeth yn ei lywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Ffyniant Bro** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Y Cynghorydd Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Y Cynghorydd Llinos Medi – Deilydd Portffolio Datblygu Economaidd** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Christian Branch – Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Efan Milner – Rheolwr y Rhaglen Ffyniant Bro**<br>**2138**<br>**efanmilner@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Perthnasol i'r holl aelodau lleol** |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Bod y Pwyllgor Craffu yn…

a. Nodi cynnydd wrth ddatblygu a chyflawni rhaglen y Gronfa Ffyniant Bro yng Nghaergybi
b. Nodi y gweithredir Rhaglen y Gronfa Ffyniant Bro yn unol â chanllawiau Llywodraeth y DU
c. Cydnabod rôl y Cyngor wrth gefnogi Partneriaid Cyflawni'r Rhaglen

Fel y cytunwyd, yr hyn y bydd y diweddariad hwn i'r Pwyllgor Craffu yn canolbwyntio arno fydd prosiectau'r Gronfa Ffyniant Bro a gyflwynir gan Gyngor Tref Caergybi.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Datblygwyd Rhaglen Ffyniant Bro Caergybi yn erbyn cyd-destun blaenoriaethau cyfredol y Cyngor. Roedd polisïau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol allweddol eraill (h.y. y Papur Gwyn ar Ffyniant Bro, Rhaglen Llywodraeth Cymru ar Lywodraethu a'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru) hefyd yn llywio ei gwaith.

Strategaethau lleol:

- Cynllun y Cyngor 2023 -2028 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2023)
- Cynllun Llesiant Ynys Môn a Gwynedd (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, 2018)
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ynys Môn 2020 –2024 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2020)
- Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 – 2026 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2017)
- Cyngor Sir Ynys Môn tuag at Gynllun Sero Net 2022-2025 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2022)

| 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini |
| --- |
| 1. Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br>2. Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br>3. Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br>4. Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Y tymor hir<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]** |

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
| --- |
| 1. Mae'r Rhaglen yn trafod rôl sylweddol gan bartneriaid allanol wrth gwblhau'r Rhaglen Ffyniant Bro'n llwyddiannus. Sut mae'r Cyngor yn cydweithio ac yn eu cefnogi i sicrhau cydymffurfiaeth lawn a llwyddiant?<br>2. Sut mae'r prosiectau Ffyniant Bro yn cael eu mesur o ran allbynnau uniongyrchol ac anuniongyrchol?<br>3. Pa sicrwydd gellid ei gynnig y bydd yr holl o'r gronfa'n cael ei gwario'n llwyddiannus, tran sicrhau cydymffurfiaeth a gwerth am arian?<br>4. Yn yr adroddiad, trafodir 5 prif risg ynghlwm wrth y Rhaglen. Pa fesurau sydd ar waith i reoli a lliniaru'r risgiau hyn? |

| 5 – Cefndir / Cyd-destun |
| --- |
| |

**a) Datblygu Cais Caergybi a Gweithio mewn Partneriaeth**

Ym mis Mehefin 2022, sicrhawyd penderfyniad gan yr Aelod Portffolio i gymeradwyo gwaith cyflwyno cais y Cyngor Sir i Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU (y Gronfa Ffyniant Bro)

Cyflwynwyd y cais "Caergybi: Trawsnewid â diwylliant a threftadaeth yn ei lywio" ar 6 Gorffennaf 2022.

Yn y cais ceir pecyn o brosiectau i Gaergybi i gynyddu cyflogaeth; gwella'r hyn a gynigir yng nghanol y dref a phrofiad ymwelwyr; cynyddu nifer yr ymwelwyr a gwariant; sicrhau arwynebedd llawr modern i ddiwallu anghenion busnes a'i gwneud yn haws i bobl gael at y celfyddydau, diwylliant a hamdden.

Y Partneriaid Cyflawni yw:
- Cymunedau'n Gyntaf Môn
- Canolfan Ucheldre
- Esgobaeth Bangor
- Cyngor Tref Caergybi
- Adfywio Treftadaeth – y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

Cafwyd cadarnhad o'r cais llwyddiannus ar y 18fed o Ionawr 2023.

Penderfynodd y Cyngor Sir ganolbwyntio ar wahodd mynegiannau o ddiddordeb gan bartneriaid allanol ar gynlluniau y gellid eu cyflawni ar y cyd â'r Cyngor Sir ar gyfer ail rownd y Fforwm. Gellid cefnogi prosiectau gwerth hyd at £20m a darparwyd cyllid o £125,000 ar gyfer costau datblygu.

Yn ystod yr asesiad hwn daeth yn amlwg mai dim ond cais oedd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghenion economaidd-gymdeithasol Caergybi fyddai'n debygol o fodloni gofynion penodol Llywodraeth y DU a chael unrhyw gyfle o lwyddo. Ymhlith y gofynion hyn roedd y gallu i wario ar unwaith; cael eu cyflawni erbyn mis Mawrth 2025; dangos gwerth am arian; a bod â chaniatadau statudol ac arian cyfatebol (neu bod modd dangos nad oes unrhyw rwystrau rhag eu sicrhau). Penderfynwyd, hefyd, y byddai un cais a ganolbwyntiai ar nodweddion 'treftadaeth; diwylliant a threflun' Caergybi, yn hytrach nag ar anghenion adfywio ehangach yr Ynys, yn debygol o sgorio'n uwch yn erbyn gofynion Llywodraeth y DU. Mae adroddiad blaenorol i'r Pwyllgor Craffu ar Raglen y Gronfa Ffyniant Bro wedi'i gynnwys yn Atodiad A. Mae rhagor o wybodaeth am y Rhaglen ynghlwm wrth Atodiad B.

**b) Rôl y Cyngor Sir wrth gyflwyno Rhaglen y Gronfa Ffyniant Bro**

Caiff Rhaglen y Gronfa Ffyniant Bro ei rheoli, ei gweithredu a'i monitro gan y Cyngor (gyda'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn gyfrifol amdani o ddydd i ddydd).

Mae Rheolwr Rhaglen ac Uwch Swyddog Prosiect wedi'u penodi i oruchwylio gwaith rheoli rhaglen y Gronfa Ffyniant Bro, gan weithio'n agos gyda'r pum partner prosiect i sicrhau eu bod yn cyflawni'r cais fel y'i cyflwynwyd yn yr achos busnes gwreiddiol, yn unol â'r gost, yn brydlon a chan sicrhau'r holl allbynnau. Bydd cydweithwyr yn y Gwasanaethau Cyllid hefyd yn chwarae rhan allweddol o ran monitro'n ariannol, cydymffurfio a rheoli risg.

Mae'r fframwaith llywodraethu ar gyfer y Rhaglen fel a ganlyn;

a) **Bwrdd y Rhaglen** – y Prif Weithredwr, Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, Aelod Portffolio Cyllid, y Swyddog Adran 151, Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil a Datblygu, Prif Swyddog Datblygu Economaidd, Rheolwr Rhaglen y Gronfa Ffyniant Bro, Uwch Swyddog Prosiect y Gronfa Ffyniant Bro ac AS Ynys Môn.
b) **Y Grŵp Cyflawni** – Cymunedau'n Gyntaf Môn, Canolfan Ucheldre, y Cyngor Tref, yr Eglwys yng Nghymru, Swyddog Treftadaeth y Cyngor, y Rheolwr Rhaglen, yr Uwch Swyddog Prosiect a'r Rheolwr Grantiau
c) **Y Grŵp Rhanddeiliaid** – Holl Aelodau Etholedig Ynys Cybi a Chaergybi, Maer Cyngor Tref Caergybi, Cadeirydd Bwrdd Cymunedau'n Gyntaf Môn, Cynrychiolydd y Ffederasiwn Busnesau Bach, Rheolwr y Rhaglen, yr Uwch Swyddog Prosiect

Mae'r graddfeydd amser ar gyfer cyflawni yn heriol a rhaid gwario'r £17m erbyn mis Mawrth 2025. O'r herwydd, bydd cael y fframweithiau cefnogi hyn yn eu lle yn helpu i gyflawni'r rhaglen. Mae'r Cyngor wedi llunio Cytundebau Cyfnod Datblygu ar wahân gyda phedwar o'r partneriaid cyflawni er mwyn sicrhau bod eu prosiectau'n cael eu datblygu ar

amser. O 1 Tachwedd ymlaen, mae'r pedwar partner wedi ymrwymo i Gytundebau Cyflawni er mwyn parhau â'r cynnydd y maent wedi'i wneud.

Cytunwyd ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar wahân i brosiectau Treftadaeth y Cyngor.

**1) Y Sefyllfa ddiweddaraf ynghylch y Prosiectau**

Yn **Atodiad C** mae trosolwg o gynnydd ar Brosiectau Cymunedau'n Gyntaf Môn, Esgobaeth Bangor (Eglwys yng Nghymru), Canolfan Ucheldre a'r Treflun.

Yn y tabl isod ceir y wybodaeth fwyaf diweddar a manylach mewn perthynas â phrosiect Cyngor Tref Caergybi (o gofio mai nhw yw canolbwynt y cyfarfod hwn).

| Disgrifiad | Cynnydd | Camau Nesaf | Gwerth |
|---|---|---|---|
| Ailddatblygu'r pedair lloches ar draeth Newry i greu ciosgs masnachol a manwerthu | Cwblhawyd dyluniadau terfynol a chafwyd pob caniatâd statudol.<br><br>Mae materion yn ymwneud â draenio wedi'u datrys.<br><br>Mae Dogfennau Tendr ar gyfer y datblygiadau wedi'u rhyddhau ar GwerthwchiGymru.<br><br>Cytunwyd ar denantiaid ar gyfer y ciosgs. | Adolygu cyflwyniadau tendr yn erbyn costau cymeradwy gwreiddiol.<br><br>Penodi contractwyr i wneud y gwaith<br><br>Y disgwyl nawr yw mai Mai 2 yw'r dyddiad cwblhau newydd. | £400,000 |
| Estyniad i gyfadeilad yr Empire gan gynnwys ailddatblygu'r Ganolfan Chwarae Meddal a gwneud gwelliannau i'r Sinema | Mae dyluniadau terfynol wedi'u cwblhau.<br><br>Ar hyn o bryd, mae disgwyl caniatâd cynllunio am y dyluniadau allanol.<br><br>Mae Dogfennau Tendr ar gyfer y datblygiadau wedi'u rhyddhau ar GwerthwchiGymru. | Adolygu cyflwyniadau tendr yn erbyn costau cymeradwy gwreiddiol.<br><br>Os oes angen, gweld a oes modd gwneud arbedion heb iddo andwyo'r prosiect.<br><br>Y disgwyl nawr yw mai mis Awst 2024 yw'r dyddiad cwblhau newydd. | £1.3M |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cytunwyd ar denantiaid ar gyfer y ciosgs. | Penodi contractwyr i wneud y gwaith | |

**2) Cyfleoedd Caffael Lleol**

Cynhaliodd tîm cyflawni’r Gronfa Ffyniant Bro ddigwyddiad Cwrdd â’r Prynwr yng Ngwesty Bae Trearddur (6 Gorffennaf 2023) i godi ymwybyddiaeth am y cyfleoedd i gontractwyr lleol. Gwahoddwyd ugain o gwmnïau lleol i'r digwyddiad ac roedd deg yn bresennol. Rhoddodd y partneriaid cyflawni amlinelliad o'u cynigion i'r cwmnïau oedd yno ac yna cafwyd cyfle i drafod y cynlluniau'n fanylach.

Bydd y partneriaid cyflawni a thîm cyflawni’r Gronfa Ffyniant Bro hefyd yn rhyddhau gwybodaeth yn ymwneud â chyfleoedd tendro ar sianeli Cyfryngau Cymdeithasol pan fo’n berthnasol.

**3) Ymgysylltu Lleol**

Medi 26 cynhaliwyd digwyddiad cymunedol yn Neuadd y Dref gyda gwahoddiad agored i bawb yn y gymuned. Unwaith eto, cyflwynodd partneriaid cyflawni eu cynigion ac roeddent ar gael i ateb cwestiynau.

Bydd rhagor o ddigwyddiadau Cwrdd â’r Prynwr a rhai cymunedol i ysgogi mwy o ddiddordeb yn y rhaglen a sicrhau bod trigolion a busnesau’n elwa. Yn ogystal â hyn, bydd ymarfer marchnata dwys a chydlynol trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol.

**4) Risgiau sy'n gysylltiedig â’r Gronfa Ffyniant Bro**

Fel rhan o'r cyflwyniad, mae'r Cyngor wedi paratoi Cofrestr Risg Rhaglen a gaiff ei monitro'n chwarterol. Dyma rai risgiau a nodwyd wrth gyflwyno’r Gronfa Ffyniant Bro ar Ynys Môn:

a. Oherwydd bod y sector adeiladu a chwyddiant mor anwadal ac nad oes modd rhagweld beth all ddigwydd iddynt, cafwyd cynnydd annisgwyl yng nghostau deunyddiau a gallai hyn barhau.
b. Nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i ddarparu unrhyw gyllid ychwanegol os bydd amrywiadau cost gyda’r £17m.
c. Risg i enw da'r Cyngor, fel y Corff Atebol sy'n gyfrifol am reoli'r Gronfa Ffyniant Bro ar Ynys Môn, pe na bai unrhyw un o'r prosiectau'n cael eu cyflawni. Mae diddordeb allanol yn hyn yn hynod o amlwg.
d. Amserlenni heriol.

| |
|---|
| e. Y Cyngor ddim yn manteisio'n llawn ar y cyfle a gyflwynir gan y Gronfa Ffyniant Bro. |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Dim – bydd ceisiadau gan grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac ar eu cyfer yn cael eu trin yn union yr un fath a gellid targedu cyllid at y grwpiau hynny. |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Nod cyffredinol Rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Caergybi yw troi dirywiad canol y dref ar ei ben drwy:<br>• Lleihau nifer yr adeiladau gwag neu adeiladau sy'n mynd â'u pennau iddynt<br>• Cynyddu nifer yr ymwelwyr a gwariant<br>• Cynyddu cyflogaeth a lleihau diweithdra<br>• Sicrhau arwynebedd llawr modern i gwrdd ag anghenion busnes<br>• Ei gwneud yn haws i bobl gael at y celfyddydau, diwylliant a hamdden<br>• Amrywio'r cynnig canol tref |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Cadarnhaol -<br>Mae Rhaglen y Gronfa Ffyniant Bro yn anelu at greu 65 o swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn newydd yn rhan o'r datblygiadau. Bydd y cyfleoedd hyn ar gael ar draws ystod o sectorau naill ai mewn sefydliadau partner neu mewn mentrau preifat. Bydd llawer o'r swyddi'n rhai sy'n ymwneud â'r cyhoedd a byddant yn helpu i roi hwb i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ardal. |
| |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Niwtral - nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cyngor Sir gan fod cost datblygu'r cais a goblygiadau staffio eisoes wedi'u talu a ffynonellau allanol fydd yn talu amdanynt. Pe byddai costau prosiectau unigol yn codi, yna bydd yn rhaid i Bartneriaid Cyflawni edrych ar opsiynau ariannu ychwanegol. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| **Atodiad A – Crynodeb o Gais Caergybi i'r Gronfa Ffyniant Bro**<br>**Atodiad B – Trosolwg o Brosiectau'r Gronfa Ffyniant Bro** |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| **Atodiad C – Adroddiad blaenorol i'r Pwyllgor Sgriwtini (Mawrth 2023)** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **15.03.2023** |
| **Pwnc:** | **Y Gronfa Ffyniant Bro – Caergybi: Trawsnewid o safbwynt diwylliant a threftadaeth** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **I adrodd ar gais Gronfa Ffyniant Bro y Cyngor Sir** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng. Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Christian Branch** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Tudur Jones**<br>**2146**<br>**tudurjones@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau lleol:** | **Perthnasol i bob aelod** |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn…<br>1. Nodi'r cynnydd o ran datblygu cais i'r Gronfa Ffyniant Bro<br>2. Cydnabod rôl y Cyngor wrth ddatblygu a chyflwyno'r cais<br>3. Cefnogi gweithredu'r Gronfa Ffyniant Bro (yn unol â'r dyddiadau cau, allbynnau cytunedig ayb.) |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Datblygwyd y Gronfa Ffyniant Bro yng nghyd-destun ein blaenoriaethau corfforaethol ac mae polisïau a strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol allweddol eraill yn sail i'r Cynllun (h.y. Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru, Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a'r Papur Gwyn ar Ffyniant Bro).<br><br>Strategaethau Lleol:<br>• Cynllun Llesiant Ynys Môn a Gwynedd (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn, 2018)<br>• Cynllun y Cyngor 2017 -2022 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2017)<br>• Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ynys Môn 2020 –2024 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2020)<br>• Cynllun Trosiannol Ynys Môn (ar ôl y pandemig) 2022-2023 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2022)<br>• Cynllun Adfywio Gogledd Ynys Môn (Cyngor Sir Ynys Môn, 2019)<br>• Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011 –2026 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2017)<br>• Cynllun Tuag at Sero Net Cyngor Sir Ynys Môn 2022-2025 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2022) |

| **3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**<br><br>**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]** |

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Mae'r adroddiad yn trafod rôl sylweddol partneriaid i gwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus. Beth yw rôl yr Awdurdod Lleol wrth fonitro cyflawniad yn erbyn y blaenoriaethau allweddol?
2. Beth yw'r risgiau allweddol a sut y mae eu rheoli i sicrhau bod ffrydiau gwaith y Gronfa yn cael eu cyflawni?
3. Pa drefniadau fydd yn eu lle i reoli'r prosiectau unigol a'r rhaglen yn gyffredinol er mwyn gallu cyflawni llwyddiannus?
4. I ba raddau mae'r rhaglen LUF fel y mae wedi cymeradwyo yn galluogi'r Awdurdod Lleol i wireddu Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023/28?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. Cyflwyniad i'r Gronfa Ffyniant Bro**

Y Gronfa Ffyniant Bro yw prif gronfa gyllido Llywodraeth y DU. Cynlluniwyd y Gronfa Ffyniant Bro i fuddsoddi mewn seilwaith economaidd-gymdeithasol craidd sy'n gwella bywyd bob dydd ledled y DU. Bydd y gronfa werth £4.8 biliwn – a lansiwyd ym mis Mawrth 2021 – yn canolbwyntio ar 3 prif faes:

1. Cefnogi canol trefi ac adfywio'r stryd fawr,
2. Prosiectau trafnidiaeth leol, ac
3. Asedau diwylliannol a threftadaeth.

O ganlyniad i'r amserlenni afrealistig i ddatblygu cais digon manwl, penderfynodd y Cyngor Sir beidio â chyflwyno cais fel rhan o rownd gyntaf y Gronfa Ffyniant Bro yn gynnar yn 2021. Yn hytrach, penderfynwyd canolbwyntio ar wahodd datganiadau o ddiddordeb gan bartneriaid allanol ar gynlluniau y gellid eu cyflawni ar y cyd â'r Cyngor Sir i baratoi ar gyfer ail rownd y Gronfa Ffyniant Bro.

Mae modd cefnogi prosiectau werth hyd at £20m a darparwyd £125,000 o gyllid i gefnogi costau datblygu.

Yn ystod yr asesiad daeth yn amlwg mai dim ond y cais, a oedd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghenion economaidd-gymdeithasol Caergybi, fyddai'n debygol o fodloni gofynion penodol Llywodraeth y DU ac o fod yn llwyddiannus. Roedd y gofynion hyn yn

cynnwys gallu gwario'r arian yn syth: cyflawni'r prosiect erbyn 2025; dangos gwerth am arian; a meddu ar gysyniad statudol (neu, gallu dangos nad oes unrhyw rwystrau i sicrhau cysyniad statudol) ac arian cyfatebol. Penderfynwyd y byddai'r cais, a oedd yn ymwneud â nodweddion 'treftadaeth; diwylliannol a threflun' Caergybi yn hytrach nag adfywio'r Ynys gyfan, yn debygol o apelio mwy i Lywodraeth y DU.
Doedd yr un o'r Datganiadau o Ddiddordeb eraill a gyflwynwyd yn bodloni'r gofynion manwl hyn ac oherwydd yr amserlenni, ni fyddai wedi bod yn bosib bwrw ymlaen â hwy a'u datblygu'n ddigonol.

Cyflwynwyd 5 Datganiad o Ddiddordeb o Gaergybi. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Cymunedau'n Gyntaf Môn a'r Cyngor Tref
2. Yr Eglwys yng Nghymru
3. Canolfan Ucheldre
4. Yr Amgueddfa Forol
5. Cyngor Sir Ynys Môn – Adfywio Treftadaeth

Yn dilyn y broses agored i gyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb, ar 3ydd Mawrth 2022 penderfynodd y Pwyllgor Gwaith gefnogi cynnig y Swyddogion i ganolbwyntio ar ddatblygu cais a oedd yn canolbwyntio ar ddiwylliant, treftadaeth ac adfywio Caergybi

**2. Datblygu'r Cais a Gwaith Partneriaeth**

Ni ellir tan werthfawrogi cymaint o waith a aeth i mewn i ddatblygu'r cais a pha mor gymhleth oedd y gwaith hwnnw. O ganlyniad, bu cydweithio dwys â phartneriaid o Gaergybi ar lefel a manylder nas gwelwyd ers tro gan y Tîm.

Wrth lunio'r cais roedd rhaid cael stori glir a threfnus a oedd yn canolbwyntio ar ymdeimlad o le, sydd yn hanfodol, a diffinio'n glir sut y mae'r holl gydrannau'n cydblethu a sut y byddant yn dod yn rhan o'r siwrnai ehangach i sicrhau ffyniant yn yr ardal.

Cafodd ceisiadau llwyddiannus eu hasesu yn erbyn pedwar maen prawf allweddol (pob un werth 25%):

1. Nodweddion yr ardal (lefel blaenoriaeth Awdurdod Lleol y Gronfa Ffyniant Bro a bennwyd ar gyfer Ynys Môn oedd #2)
2. A yw'n cyd-fynd â blaenoriaethau lleol a blaenoriaethau'r Gronfa Ffyniant Bro
3. Gwerth am arian
4. Cyflawnadwyedd – Cyllid, gallu gwario'r arian yn syth a chyflawni'r prosiect erbyn 2025, rheolaeth ac achosion masnachol, a monitro a gwerthuso.

Roedd rhaid asesu'r meini prawf ar sail pasio /methu.

Roedd datblygu'r cais hefyd yn golygu sicrhau gwybodaeth bellach a darparu cefnogaeth helaeth a manwl i'r 5 Datganiad o Ddiddordeb (Môn CF, Cyngor Tref Caergybi, Canolfan Ucheldre, y Cyngor Sir (Treftadaeth) a'r Eglwys yng Nghymru) a chynnal trafodaethau gyda hwy i asesu aeddfedrwydd a hyfywdra pob prosiect a sut y maent yn cyd-fynd ag egwyddorion a gofynion y Gronfa Ffyniant Bro. Ceir crynodeb o'r allbynnau y mae pob prosiect unigol yn debygol o'u cyflawni yn Atodiad A.

Ym mis Mehefin 2022, penderfynodd yr Aelod Portffolio gefnogi cyflwyno cais y Cyngor Sir i Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU.

Cyflwynwyd y cais “Caergybi: Trawsnewid o safbwynt diwylliant a threftadaeth" ar 6 Gorffennaf 2022.

Mae’r cais yn amlinellu sut y bydd yn atal dirywiad yng nghanol y dref, ac ennyn balchder ymysg trigolion. Bydd yn helpu i drawsnewid y dref drwy sicrhau buddsoddiad gwerth £22.5m, yn cynnwys £17m o’r Gronfa Ffyniant Bro, a sicrhau manteision gwirioneddol gwerth dros £54m i’r gymuned leol.

Mae’r cynnig yn cynnwys pecyn o brosiectau i gynyddu cyflogaeth; gwella canol y dref a phrofiad ymwelwyr; cynyddu’r nifer y bobl sy’n ymweld â’r dref a’u cael i wario mwy yn y dref; a chynyddu mynediad at gelfyddyd, diwylliant a hamdden.

Dylid nodi bod arian cyfatebol tuag brosiect y Gronfa Ffyniant Bro wedi’i gadarnhau’n llawn a’i fod yn dod o ffynonellau cyllido’r prosiectau eu hunain. Nid yw’r Cyngor Sir – ac eithrio ar gyfer ei brosiect mewnol ei hun – wedi darparu unrhyw arian cyfatebol i noddwyr y prosiectau.

### 3. Canlyniadau’r cais i’r Gronfa Ffyniant Bro

Ar 18 Ionawr 2023, clywodd y Cyngor Sir bod ei gais i’r Gronfa Ffyniant Bro wedi bod yn llwyddiannus a bod y swm llawn wedi’i ddyrannu iddo, sef £17m.

O’r 529 o geisiadau a gyflwynwyd yn y DU yn ystod yr ail rownd, dim ond 111 (20%) oedd yn llwyddiannus. Mae hyn yn dangos bod Ynys Môn wedi cyflwyno cais o safon uchel iawn a’i fod wedi bodloni meini prawf a gofynion manwl Cronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU a mwy.

Mae gwybodaeth bellach am y cais ar gael yma ar wefan y Cyngor a hefyd yn Atodiad B

### 4. Rôl y Cyngor sir o ran cyflawni’r Gronfa Ffyniant Bro

Er nad oes gan y Cyngor Sir – ac eithrio yn ystod y prosiect Treftadaeth – rôl uniongyrchol o ran cyflawni’r Gronfa Ffyniant Bro, mae ganddo rôl hanfodol i’w chwarae o ran rheoli a gweithredu’r rhaglen gyffredinol yn llwyddiannus.

Mae Rheolwr Rhaglenni profiadol wedi cael ei benodi i oruchwylio’r gwaith o reoli’r rhaglen, a gweithio’n agos gyda’r 5 partner a sicrhau eu bod yn cyflawni’r hyn sydd wedi’i gynnwys yn yr achos busnes gwreiddiol a gyflwynwyd fel rhan o’r cais, gan gadw at y costau, cwblhau’r gwaith ar amser a chyflawni’r holl allbynnau. Bydd cydweithwyr yn y Gwasanaethau Cyllid hefyd yn chwarae rhan allweddol o safbwynt monitro, cydymffurfiaeth a rheoli risg.

Bydd y rôl strategol newydd hon i’r Cyngor Sir yn golygu ffordd newydd o gyflawni’r rhaglen a ffordd newydd o weithredu ar ran pobl Ynys Môn. Mae’n adlewyrchu’r rôl y bydd y Cyngor Sir yn ei mabwysiadu wrth gyflawni a gweithredu dulliau cyllido eraill Llywodraeth y DU, megis y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Mae fframwaith Llywodraethu newydd wrthi'n cael ei baratoi er mwyn sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau clir yn cael eu mabwysiadu ar y lefel briodol o fewn y Cyngor Sir, yn â ogystal sicrhau mewnbwn a chymorth allanol lle bo angen. Bydd Bwrdd Rhaglen hefyd yn cael ei sefydlu i sicrhau bod mesurau llywodraethiant cadarn ar waith a bydd Swyddogion yn helpu i graffu ar benderfyniadau cyn eu bod yn cael eu trosglwyddo i bartneriaid y prosiectau, yn enwedig mewn meysydd megis caffael er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r rheoliadau.

Mae'r Cyngor Sir hefyd yn y broses o lunio cytundebau cyfreithiol pwrpasol rhwng y Cyngor â'r pum sefydliad cyflawni (partneriaid y prosiect) i sicrhau bod rolau, cyfeirebau, trefniadau llywodraethiant, monitro perfformiad, ceisiadau ayb. yn cael eu hamlinellu a'u cytuno o'r cychwyn cyntaf. Byddant yn seiliedig ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gan Lywodraeth y DU.

Mae'r terfyn amser yn heriol a rhaid gwario'r £17m, erbyn mis Mawrth 2025, ac felly bydd y fframweithiau hyn o gymorth wrth gyflawni'r rhaglen. Mae trafodaethau anffurfiol wedi cael eu cynnal gyda Llywodraeth y DU i ofyn am estyniad y tu hwnt i fis Mawrth 2025.

**5. Y risgiau sydd ynghlwm â'r Gronfa Ffyniant Bro**

Mae rhywfaint o risgiau wedi dod i'r amlwg o safbwynt cyflawni prosiectau'r Gronfa Ffyniant Bro ar Ynys Môn, maent yn cynnwys:

1. Cynnydd nad oes modd ei ragweld mewn costau deunyddiau o ganlyniad i ansefydlogrwydd a natur anrhagweladwy'r sector adeiladu.
2. Anallu'r Cyngor i ddarparu cyllid ychwanegol os bydd costau'n cynyddu y tu hwnt i'r £17m.
3. Risg i'n henw da, fel y Corff sy'n gyfrifol am weithredu'r rhaglen ar Ynys Môn, os na chaiff yr holl brosiectau eu cyflawni. Bydd hyn yn denu llawer o ddiddordeb allanol.
4. Bod yn ddibynnol ar bartneriaid allanol sydd ddim o reidrwydd yn meddu ar brofiad o gyflawni cynlluniau o'r fath a'r risg y byddant yn tangyflawni ar y prosiectau a gymeradwywyd.
5. Amserlenni heriol yn enwedig gan fod yr wybodaeth dipyn yn araf yn ein cyrraedd ni o Lywodraeth y DU i'n galluogi i roi'r cynlluniau ar waith gyda sicrwydd a hyder a heb risg.
6. Y Cyngor methu â manteisio'n llawn ar y cyfle y mae'r Gronfa Ffyniant Bro yn ei chynnig.

**6. Ffynonellau Cyllido Eraill**

Er bod yr arian a sicrhawyd drwy'r Gronfa Ffyniant Bro ar gyfer Caergybi yn unig mae'n bwysig nodi bod ffynonellau cyllido eraill yn dal i fod ar gael i rannau eraill o Ynys Môn. Mae gwaith asesu a sgorio yn mynd rhagddo fel rhan o'r Gronfa Ffyniant Bro ar hyn o bryd ac mae rowndiau pellach yn yr arfaeth. Mae gan Lywodraeth Cymru gyllid Canol Trefi ar gael ac fe allwn hefyd sicrhau cyllid penodol ar gyfer Gogledd Ynys Môn drwy'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA).

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| **6.1 Yr effaith bosib ar grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Dim – caiff ceisiadau gan ac ar gyfer grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 eu trin yr un fath a gellir targedu cyllid tuag at y grwpiau hynny. |
| **6.2 Yr effaith bosib ar y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Cadarnhaol – mae'n bosib y gellid targedu'r cyllid tuag at y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. |
| **6.3 Yr effaith bosib ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg.** |
| Cadarnhaol – trwy greu cyfleoedd gwaith yn yr ardal y gobaith yw y bydd mwy o siaradwyr Cymraeg yn elwa o'r cyfleoedd hynny ac y byddant yn aros yn yr ardal leol. |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| Niwtral - nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ar y Cyngor Sir gan fod y costau i ddatblygu'r cais a goblygiadau staffio wedi cael eu talu a byddant yn cael eu cyfarch drwy ffynonellau allanol. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| **A – Manylion am Brosiectau'r Partneriaid Cyflawni**<br>**B – Crynodeb o'r Cais i'r Gronfa Ffyniant Bro ar gyfer Caergybi** |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

Ynys Môn
THE ISLE OF Anglesey

# Caergybi: Trawsnewid o safbwynt diwylliant a threftadaeth

## Cais Cronfa Codi'r Gwastad

Awst 2022



CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

www.ynysmon.llyw.cymru
www.anglesey.gov.wales

# Cynnwys

Crynodeb o’r Buddsoddiad ....................................................... 3
Caergybi: Trawsnewid o safbwynt diwylliant a threftadaeth ................ 5
Canol tref sy’n gwneud cam â’i gymuned ............................................ 7
Adeiladu ar gyfle......................................... ........................................ 9
Canol tref y mae ei ffyniant yn amlwg................................................ 10
Canlyniadau – cyflawni newid ............................................................ 14
Ein tîm cyflawni profiadol.................................................................... 15

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Crynodeb o’r Buddsoddiad

Risg isel sydd ynghlwm â chais Caergybi. Gan arwain at wahaniaeth gweladwy cyflym, bydd yn sicrhau £22.5m o fuddsoddiad cyhoeddus a phreifat ac yn cyflenwi dros £54 o fuddion i'r gymuned leol.

## Ffryntiad y Traeth

Caiff cysgodfannau’r traeth, sydd mewn cyflwr gwael, eu hadnewyddu i’w defnyddio i ddarparu gwybodaeth i dwristiaid / man cyrraedd a gadael ar gyfer atyniadau lleol, ynghyd ag ar gyfer busnesau bwyd a diod.



## Prosiect Trawsnewid Treflun

Parhad prosiect tra llwyddiannus ar gyfer adnewyddu eiddo sydd wedi’i esgeuluso yng nghanol y dref. Buddsoddi mewn gwella golwg adeiladau i wella ymdeimlad o barch mewn lle, lleihau'r niferoedd o eiddo gwag, cynyddu'r niferoedd sydd wedi'u meddiannu, ynghyd â niferoedd yr ymwelwyr, a gwrthdroi diriwiad canol y dref.




## Ehangu'r Ucheldre

Canolfan Ucheldre yw prif ased y dref o safbwynt celfyddydol a diwylliannol. Mae’n brwydro ar hyn o bryd â diffyg lle a chapasiti. Bydd ehangu’r ganolfan yn darparu lle ar gyfer y rhaglen ddigwyddiadau helaeth, sy’n amrywio o weithgareddau ar gyfer rhieni a phlant, i gynyrchiadau theatr a sgrinio operâu.



Tudalen 79



## Rhaglen Eiddo Gwag



Mae’r Rhaglen yn ymwneud â phrynu ac adnewyddu eiddo sydd mewn cyflwr gwael/ yn wag yng nghanol y dref, ac mae’n adeiladu ar lwyddiant y Fenter Siopau Gwag. Y bwriad yw prynu pum adeilad allweddol a’u hadnewyddu i’w defnyddio er budd y gymuned.

## Ehangu’r Ganolfan Chwarae




Canolfan Chwarae’r Empire yw un o’r ychydig atyniadau dan do a geir yng Nghaergybi. Mae’n denu mwy o ymwelwyr ar hyn o bryd na’r capasiti sydd ar gael yno ar eu cyfer. Bydd cyflwyno’r prosiect ehangu yn diwallu’r angen am atyniad dan do/tywydd gwael ar gyfer pobl leol a thwristiaid (gan dargedu plant a theuluoedd).

## Eglwys Sant Cybi



Mae’r eglwys yn adeilad rhestredig Gradd I, a dyma brif ased Caergybi o safbwynt treftadaeth. Defnyddir y cyllid i wneud yr eglwys yn lle mwy hyblyg a chanddo ogwydd cymunedol, a bydd yn creu 'deli' / caffi a redir fel menter gymdeithasol.

## Mannau Cyhoeddus a Gwella Profiad i Ymwelwyr



Canolfan ymwelwyr newydd ar gyfer Parc Gwledig y Morglawdd, ynghyd â gwella arwyddion a llwybrau i ganol y dref. Mae’r rhain yn mynd ar hyd glan y môr, ac yn cynnwys gwella mannau cyhoeddus yng nghyffiniau Eglwys Sant Cybi a’r Gaer Rufeinig.

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Amcanion

# Amcanion ein Cais

Yr amcan cyffredinol yw gwrthdroi dirywiad Canol y Dref, a chynyddu ymdeimlad preswylwyr o falchder yn y lle.



- Lleihau nifer yr adeiladau gwag neu sydd mewn cyflwr gwael
- Cynyddu nifer yr ymwelwyr a gwariant
- Cynyddu cyflogaeth a lleihau diweithdra
- Darparu arwynebedd llawr modern i ddiwallu anghenion busnesau
- Cynyddu a gwella mynediad i'r celfyddydau, diwylliant a hamdden
- Sicrhau mwy o amrywiaeth o ran yr hyn sydd gan ganol y dref i'w gynnig a gwella profiad ein ymwelwyr

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# **Caergybi**: Trawsnewid o safbwynt diwylliant a threftadaeth

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Caergybi: gwneud gwahaniaeth gweladwy

Mae hanes, diwylliant a lleoliad naturiol arbennig Caergybi yn gryfderau a fydd yn gwasanaethu ei chymuned leol yn dda.

Maent yn golygu bod y dref mewn sefyllfa ddelfrydol i fanteisio ar fod yn un o borthladdoedd prysuraf y DU, gyda chysylltiadau i Ddulyn, tren i Llundain, ac yn borth i gyrchfan dwristiaid fyd-enwog.

Ond i wneud hynny, rhaid i ganol y dref fod yn addas i ymwelwyr, a bydd buddsoddi arian cyhoeddus ynddo yn awr yn gwneud gwahaniaeth gweladwy yn syth, gan ddenu buddsoddiad preifat a gwariant gan ymwelwyr, er budd cymunedau lleol.

Mae'r cais hwn yn dod â phartneriaid cryf o'r ardal leol, ynghyd â phecyn cydlynol a chynhwysfawr o ymyraethau dethol, at ei gilydd.

Fe wnaiff y cyfuniad hwn roi'r dref ar drywydd newydd, a mwy cynaliadwy.

Fel un o'r lleoedd a chanddo'r lefelau uchaf o amddifadedd yng Nghymru, a'r un sydd wedi'i raddio uchaf o blith ardaloedd blaenoriaeth Lefel 2 yn Ail Rownd o Cronfa Codi'r Gwastad, mae'r cyfle i wneud gwahaniaeth yma'n aruthrol, ac yn fater o frys.



CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Canol tref sy'n gwneud cam â'i gymuned

Mae Ynys Môn yn wynebu sawl her economaidd, mae lefelau cynhyrchiant ac incwm yn isel, a diweithdra'n uchel - fe'i rhoddwyd ar frig y rhestr flaenoriaeth o bob ardal Lefel 2 yng Nghymru.


Caergybi, sef tref fwyaf yr ynys, yw'r un y mae arni angen y buddsoddiad mwyaf, a chanddi rai o'r cymdogaethau â'r lefelau amddifadedd gwaethaf yng Nghymru.

Mae hyn yn fwy a mwy amlwg yng nghanol y dref, lle mae'r cyfraddau gwacter mor uchel â 26%, sydd dros ddwywaith y cyfartaledd a geir ym mhedair ardal ganol tref arall yr ynys. Mae eiddo gwag yn difetha Caergybi, ac yn atal ymwelwyr, tra bo rhenti isel yn gwneud eu hadnewyddu a'u hailddatblygu'n anhyfyw.

Mae angen buddsoddiad cyhoeddus ar frys i fynd i'r afael â methiant y farchnad, i ddod a gweithgarwch yn ôl i Gaergybi, ac i sbarduno buddsoddiad gan y sector preifat.

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

## Mae canol tref fwyaf Ynys Môn yn dioddef














CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Gwrthdroi dirywiad Canol Tref Caergybi

# Adeiladu ar gyfle

Ceir cyfle enfawr i greu newid yng Nghaergybi – a chanddi gryfderau sylfaenol arbennig iawn, sy'n aros am gyfleoedd i'w datgloi. Mae ei hanes a'i diwylliant yn ei gwneud yn gyrchfan ddelfrydol i ymwelwyr, ond rhaid buddsoddi ynddi.

Ac mae'r ymwelwyr hynny yma'n barod – mae gan Gaergybi gysylltiadau da o gymharu â'r mwyafrif o gymunedau arfordirol ymylol. Mae trên uniongyrchol i Lundain, ynghyd â fferi uniongyrchol i Ddulyn, yn ogystal â phorthladd ar gyfer llongau mordeithio, yn golygu bod dwy filiwn o ymwelwyr yn pasio trwy'r dref bob blwyddyn.

Mae'n borth twristiaeth ar gyfer Eryri a Gogledd Cymru, tra bo Ynys Môn eisoes yn gyrchfan boblogaidd ynddi'i hun, y mae pobl wrth eu boddau'n ymweld â hi. Dylai Caergybi, fel ei thref fwyaf, fod yn fan aros naturiol i ymwelwyr, a bydd ein cynlluniau'n rhoi rheswm i ymwelwyr wneud hynny.

Ceir ymdeimlad aruthrol o falchder dinesig yng Nghaergybi, ond mae gweld holl wead canol y dref yn edwino o'u blaenau yn lladd ysbryd y gymuned. Bydd buddsoddiad yn newid hyn, fel bod yr ymdeimlad o falchder yn cael ei wireddu a'i adlewyrchu yng ngolwg y lle.


Eglwys Sant Cybi a'r Gaer Rufeinig


Canolfan Ucheldre


Neuadd y Farchnad

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Ein cynlluniau

# Canol tref y mae ei ffyniant yn amlwg



Caiff preswylwyr a thwristiaid, fel ei gilydd, fudd o'r cynllun buddsoddi cydgysylltiedig gan y Gronfa Codi'r Gwastad.

Bydd lleihau cyfraddau gwacter a denu mathau newydd o ddefnydd yn darparu swyddi i breswylwyr lleol, ynghyd ag opsiynau gwell o ran bwyta, yfed, siopa a hamdden.

Bydd yn rhoi hwb i dwristiaeth hefyd, ac yn manteisio ar dwf yn nifer y llongau mordeithio sy'n ymweld â'r porthladd.

Mae harddwch naturiol Ynys Môn a Gogledd Cymru'n gofyn am ganol trefi deniadol i gwblhau'r profiad bob tywydd sydd ar gael i ymwelwyr. Fe wnawn ni hynny yng Nghaergybi trwy gyfuno gwelliannau o ran yr hyn a gynigir o safbwynt diwylliant a threftadaeth, ynghyd â mynediad gwell i lan y môr, a phecyn o newidiadau i gyflwyno gweithgareddau i ganol y dref, a'i gweddnewid i greu canol tref sy'n dibynnu llai ar fanwerthu.

Bydd y cyfleoedd newydd o ran gwariant a chyflogaeth yn fodd i adfywio economi leol a chanol tref ddiffygiol, yn ogystal ag ailddefnyddio asedau a lleihau trosedd. Bydd y gwelliannau o safbwynt cymunedol yn creu newid a fydd yn weladwy i bobl leol.

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL



# Dod â diwylliant a threftadaeth i'r amlwg

- **Eglwys Sant Cybi**
  Bydd y seren ymhlith holl asedau treftadaeth Caergybi, sydd wedi'i rhestru'n Radd 1, yn ehangu i greu hyb cymunedol, a fydd yn helpu pobl leol ac yn creu mwy o weithgarwch yng nghanol y dref.
- **Y Gaer Rufeinig a Sgwâr Swift**
  Caiff mannau cyhoeddus yng nghyffiniau Eglwys Sant Cybi ei drawsnewid gyda chyfleusterau i ymwelwyr wedi'u huwchraddio, a fydd yn cynnwys platfform y gellir gweld yr olygfa ohono.
- **Canolfan Gelfyddydol Ucheldre**
  Bydd cyfleusterau gwell, ynghyd ag ehangu ei gapasiti, yn galluogi'r sefydliad diwylliannol allweddol hwn i dyfu ei raglen a chyrraedd rhagor o bobl.
- **Canolfan Chwarae'r Empire**
  Gan gwblhau'r cyfuniad o ddarpariaeth i bawb o bob oed, caiff un o brif atyniadau dan do'r dref ei ehangu i gwrdd â'r galw sy'n uchel eisoes.








CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Gwneud y gorau o asedau naturiol

- **Ffryntiadau Traeth Newry**
  Cyfleusterau gwell i bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd, er mwyn iddynt gael mynd at lan môr y dref a'i mwynhau. Mae ffryntiadau'r traeth yn rhan o Lwybr Treftadaeth y Morglawdd i dywys teithwyr llongau mordeithio i mewn i ganol y dref.

- **Canolfan Ymwelwyr Treftadaeth y Morglawdd**
  Bydd llwybrau gwell o'r parc gwledig ar gyrion Caergybi yn caniatáu i ragor o bobl gael dysgu am dreftadaeth Caergybi ac Ynys Môn. Bydd gwelliannau o safbwynt mannau cyhoeddus yn cyfeirio twristiaid i mewn i ganol y dref a thuag at asedau treftadaeth lleol.






# Hwb o'r newydd i Ganol y Dref

- **Trawsnewid y Treflun**
  Bydd hyn yn caniatáu i ni ehangu ein rhaglen dra llwyddiannus o adnewyddu eiddo treftadaeth adfeiliedig yng nghanol y dref - a fydd yn gwrthdroi dirywiad canol y dref.

- **Y Rhaglen Eiddo Gwag**
  Bydd Môn CF yn prynu rhai o'r eiddo gwag mwyaf ac amlycaf ac yn creu modd newydd a ffyniannus o'u defnyddio gan y gymuned. Bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth gweladwy yng nghanol y dref, ac yn denu mwy o bobl i mewn iddo.



Taclo doluriau llygaid



Canlyniad ymyrraeth flaenorol Môn CF



CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Ein cynlluniau

# Canlyniadau

Caiff y cyfuniad o'r holl ymyraethau hyn eu dylunio gyda'i gilydd i wneud y dref yn lle gwell i ymweld â hi ac i dreulio amser ynddi hi, gan adfer yr ymdeimlad o falchder yn y lle.

Bydd y cais yn cyflwyno cyfanswm o £22.5m o ran buddsoddiad, gan gynnwys £17m o'r Gronfa Codi'r Gwastad, a fydd yn cyflenwi £54m o fuddion (GPN).

Bydd torri'r cylch o ddirywiad o safbwynt manwerthu, trwy gynnig darpariaeth amgen o ran atyniadau treftadaeth a chymunedol, yn dod ag ymwelwyr i'r dref, ynghyd â gwariant a fydd yn creu rhagor o fomentwm.

Bydd hefyd yn cyfrannu at dargedau Sero Net trwy adnewyddu adeiladau presennol, gan arwain at ostyngiad mawr yn y carbon sy'n rhan annatod ohonynt, o gymharu ag adeiladau newydd.

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

## Cynnig gwell o safbwynt diwylliant, y celfyddydau a hamdden

- sy'n caniatáu i ragor o bobl feithrin diddordeb yn eu treftadaeth

Cynnig ehangach o gelfyddydau a diwylliant (tua 575 metr sgwâr) yng Nghanolfan Ucheldre, yn denu 17,500 o ymweliadau ychwanegol y flwyddyn

Stiwdio ddawns newydd (114 metr sgwâr) ar gyfer 60 o ddawnswyr ychwanegol pob wythnos

Canolfan chwarae fwy (tua 190 metr sgwâr) sy'n lleihau'r rhestr aros ac yn caniatáu 16,000 mwy o ymweliadau pob blwyddyn

Cynnig gwell yn Eglwys Sant Cybi, ynghyd â chyflwyno nodweddion treftadaeth yn fwy effeithiol, sy'n caniatáu yr eglwys i wireddu ei photensial fel atyniad allweddol i ymwelwyr

## Canol tref fywiog a chynaliadwy

Cael ailddefnyddio 25 o adeiladau gwag / adfeiliedig

8 Gwella blaenau siopau o fewn yr ardal gadwraeth

20 o gartrefi newydd neu wedi'i ailwampio a 7 llety gwyliau

Dros 65 o swyddi newydd (cyfartal ac amser llawn), 6 phrentisiaeth newydd a thros 85 o gyfleoedd gwirfoddoli

Codi Gwerth Tir (£1.2m yn uniongyrchol, a £4.7m yn anuniongyrchol)

## Effeithiau

Gwariant uchel yng nghanol y dref

Llai o ddiweithdra

Mwy o bobl yn meithrin diddordeb yn y celfyddydau / hamdden / treftadaeth

Cynyddu llesiant

Llai o drosedd

Hybu'r ymdeimlad o falchder yn y lle

Taclo tlodi bwyd ac amddifadedd cymdeithasol

Hyrwyddo cydlyniant cymunedol

Annog teithio llesol

# Ein tîm cyflawni profiadol

## Cyngor Sir Ynys Môn

Mae’r prosiect hwn yn adeiladu ar waith blaenorol a gyflawnwyd gan y Cyngor, gan gynnwys Cronfa Treftadaeth y Loteri a chyllid Llywodraeth Cymru. Mae’r Cyngor yn gyfrifol am sawl un o’r asedau a gynhwysir o fewn y prosiect, gan gynnwys y prosiectau Trawsnewid Treflun, ynghyd â Mannau Cyhoeddus a’r Profiad i Ymwelwyr.

## Cyngor Tref Caergybi

Bu’r Cyngor Tref a’r Maer yn rhan annatod o bennu’r prosiectau hyn, a datblygwyd estyniad y Ganolfan Chwarae a’r cynigion ar gyfer Ffryntiadau’r Traeth ganddynt.

## Môn CF

Elusen sy’n eiddo i’r gymuned, sy’n cefnogi ardaloedd o amddifadedd, sy’n uwchsgilio’r boblogaeth leol, ac yn helpu pobl i gael swyddi.

Mae gan Môn CF hanes ardderchog eisoes o safbwynt y gwaith a wnaed ganddynt i sicrhau y caiff eiddo gwag yng nghanol y dref eu hailddefnyddio.

Mae gan Môn CF gynlluniau ar gyfer eiddo yng nghanol y dref, sy’n barod i’w rhoi ar waith unwaith y bydd cyllid ar gael.

## Esgobaeth Bangor

Mae Esgobaeth Bangor yn elusen gofrestredig. Ymhlith yr asedau cyfalaf a reolir ganddi y mae dros 170 o adeiladau eglwysi, gan gynnwys yr holl waith adnewyddu a datblygu. Mae Eglwys Sant Cybi yn rhan o brosiect Llefa’r Cerrig (‘Stones Shout Out’) sy’n ymdrechu i ddiogelu, adnewyddu a gwella pump o eglwysi harddaf a mwyaf hanesyddol yr Esgobaeth.

## Canolfan Ucheldre

Canolfan gelfyddydau gymunedol yw Ucheldre, a chanddi statws elusen gofrestredig. Dyma’r unig leoliad ar gyfer y celfyddydau perfformio ar Ynys Môn, ac mae’n chwarae rôl werthfawr o safbwynt rhoi cyfle i’r gymuned leol gael manteisio ar bob math o weithgareddau artistig.



CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Ynys Môn

# THE ISLE OF Anglesey



CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

yma i helpu
Môn CF
here to help

YR EGLWYS YNG NGHYMRU
THE CHURCH IN WALES

CANOLFAN UCHELDRE CENTRE

**Atodiad C – Trosolwg ar Brosiectau'r Gronfa Ffyniant Bro 24/10/2023**

| Partneriaid Cyflawni | Prosiect | Disgrifiad | Cynnydd | Camau Nesaf | Gwerth |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymunedau'n Gyntaf Môn | Rhaglen Eiddo Gwag | Bydd Cymunedau'n Gyntaf Môn yn prynu rhai o'r eiddo gwag mwyaf ac amlycaf ac yn eu defnyddio i berwyl cymunedol newydd a bywiog. Bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth gweladwy i ganol y dref ac yn denu mwy o bobl iddi. | Mae gwaith prynu'r HSBC a'r Adeiladau Canolog wedi'i gwblhau.<br><br>Cytunwyd ar ddyluniadau terfynol y ddau adeilad a chafwyd caniatâd ar eu cyfer. Bydd tendrau'n cael eu rhyddhau ar gyfer y ddau ddiwedd mis Hydref.<br><br>Mae gwaith cytuno ar dendrau ar gyfer 9 a 14 Stryd Stanley yn mynd rhagddo gyda mewnbwn Swyddog Treftadaeth y Cyngor. Byddir yn rhyddhau'r tendrau ym mis Rhagfyr.<br><br>Bydd pob prosiect yn cael ei gwblhau ym misoedd Ionawr/Chwefror 2025.<br><br>Cytunwyd ar denantiaid i'r holl fusnesau yn dilyn camau gan Gymunedau'n Gyntaf Môn, gyda mewnbwn y Cyngor, i fusnesau ddatgan Mynegiant o Ddiddordeb. | Adolygu cyflwyniadau tendr a phenodi contractwyr i'r holl brosiectau.<br><br>Monitro cynnydd a chostau | £5.9 miliwn yn cynnwys Arian Cyfatebol |

Draft

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Esgobaeth Bangor | Eglwys Sant Cybi ac Eglwys y Bedd | Bydd seren restredig Gradd 1 asedau treftadaeth Caergybi yn ehangu i fod yn ganolbwynt cymunedol. Wrth wneud hyn, byddir yn helpu pobl leol ac yn dod â mwy o weithgarwch i galon y dref. | Mae’r holl ganiatadau ar gyfer ad-drefnu’r Eglwys wedi eu derbyn.<br><br>Mae'r gwaith dylunio ar gyfer yr eglwys wedi'i gwblhau ac mae'r penseiri’n cwblhau'r dogfennau tendro.<br><br>Mae dal angen caniatâd Heneb Gofrestredig am Fwriadau Eglwys y Bedd ac mae angen cynnal rhagor o ymchwiliadau archeolegol. Ni fydd canlyniad yr ymchwiliadau hyn yn hysbys tan ddiwedd mis Tachwedd. | Cael Caniatâd Heneb Gofrestredig i Eglwys y Bedd.<br><br>Monitro ymchwiliadau archeolegol er mwyn nodi materion posibl.<br><br>Adolygu dogfennau tendro ar gyfer Sant Cybi.<br><br>Ailgyflwyno cais cynllunio ar gyfer Eglwys y Bedd.<br><br>Adolygu materion ynghylch Wal Trydydd Parti. | £2.3 miliwn yn cynnwys arian cyfatebol |
| Canolfan Gelfyddydau Ucheldre | Ailddatblygu’r Ganolfan | Gwella'r cyfleusterau a sicrhau mwy o gapasiti yng Nghanolfan Ucheldre. Fel hyn, bydd modd i’r sefydliad diwylliannol hwn ddatblygu ei | Mae tendrau i atgyweirio ac adnewyddu a’r prif waith contract wedi'u cwblhau.<br><br>Mae cyflwyniadau wedi'u hadolygu ac mae contractwr a ffefrir wedi’i ddewis.<br><br>Mae disgwyl i'r gwaith ar y safle, o ran y prif waith ymestyn a | Monitro cynnydd a chostau | £4.8 miliwn yn cynnwys arian cyfatebol |

Draft

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | raglen ac ymestyn allan i fwy o bobl. | chanolbwyntio ar y cynllun Ffyniant Bro, ddechrau tua diwedd mis Hydref.<br><br>Mae pob caniatâd statudol wedi'i roi. | | |
| Menter Treftadaeth Treflun Caergybi, Cyngor Sir Ynys Môn | Trawsnewid y Treflun a Mannau Cyhoeddus | Wrth wneud hyn, bydd modd i ni ymestyn rhaglen lwyddiannus y Cyngor, sef adnewyddu eiddo treftadaeth yng nghanol y dref, sydd wedi mynd â'u pennau iddynt, gan droi dirywiad canol y dref ar ei ben.<br><br>Bydd y man cyhoeddus o amgylch Eglwys Sant Cybi'n cael ei drawsnewid a bydd yno gyfleusterau gwell i ymwelwyr a llwyfan wylio. | Mae trafodaethau gyda pherchnogion eiddo yn parhau ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar baratoi tendrau.<br><br>Bydd gwaith ar reiliau a bwa Adeiladau'r Farchnad yn dechrau ym mis Tachwedd yn dilyn proses dendro lwyddiannus drwy GwerthwchiGymru.<br><br>Cynhelir trafodaethau gyda pherchnogion ynghylch gwaith ar flaenau siopau a byddir yn cael eu caniatâd i'r gwaith hwnnw cyn i dendrau gael eu rhyddhau. | Parhau i drafod gyda pherchnogion trydydd parti.<br><br>Paratoi tendrau ar gyfer blaen siopau a'r prosiectau adnewyddu.<br><br>Nodi safleoedd posibl eraill i'w hadnewyddu | £6.8 miliwn yn cynnwys arian cyfatebol |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**<u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **22 Tachwedd, 2023** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2023/24** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**07971167198**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2023/24<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith

ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2023/24 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 17 Hydref, 2023

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2023/24 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysyllltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2023→ Ebrill, 2024**
**[Fersiwn dyddiedig 14/11/23]**

## Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk ]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2023 (23/05/23)** | **Mai, 2023 (23/05/23)** |
| Ethol Cadeirydd: 2023/24 | Ethol Cadeirydd: 2023/24 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2023/24 | Ethol Is-gadeirydd: 2023/24 |
| | |
| **Mehefin, 2023 (20/06/23) – Ch4** | **Mehefin, 2023 (21/06/23)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2022/23 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2022/23<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg: 2022/23 → Mesur Cynnydd<br>• Adroddiad Cynnydd y Panel Sgriwtini Addysg |
| Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn: 2022/23 |
| Cynllun Rheoli'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol | Cynllun Rheolaeth Cyrchfan |
| Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2023/24 | Adroddiad Cynnydd Ch 4 2022/23 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Medi, 2023 (19/09/23) – Ch1** | **Medi, 2023 (19/09/23) - Addysg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2023/24 | Ymgynghoriad ar Ddyfodol Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru – sylwadau Cyngor Sir Ynys Môn |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Blynyddol Ynys Môn gan GwE: 2022/23 |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol: 2022/23 | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Enwebu Aelod o’r Pwyllgor Sgriwtini ar y Panel Sgriwtini Cyllid | Siarter Craffu Addysg |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Hydref, 2023 (18/10/23) – cyfarfod wedi’i ddiddymu** | **Hydref, 2023 (17/10/22)** |
| | Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2022/23 |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2022/23 |
| | Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus: 2023-2028 |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| | **Tachwedd, 2023 (13/11/2023) – Cyfarfod Ychwanegol** |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| | |
| | |
| **Tachwedd, 2023 (21/11/23) - Ch2** | **Tachwedd, 2023 (22/11/23) – Trosedd ac Anhrefn** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2023/24 | Cynllun Strategol Adnoddau ac Ail-gylchu: 2023/2028 |
| Cynllun Strategol Tai Gwag: 2023/28 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2022/23 |
| Adroddiad Cynnydd Siwrnai Gwasanaethau Cymdeithasol | Rhaglen Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| Enwebu Aelod o’r Pwyllgor Sgriwtini ar y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol / Panel Rhiantu Corfforaethol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Ionawr, 2024 (18/01/24) – Cyllideb 2024/25** | **Ionawr, 2024 (16/01/24)** |
| Sefydlu Cyllideb 2024/25 (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Diogelu Corfforaethol |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Cynnydd Ch2: 2023/24 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid | Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau Dysgu (ardal Caergybi) |
| Strategaeth Rheoli Asedau (Gwasanaeth Tai) | |
| Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol:2023/2028 | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Chwefror, 2024 (27/02/24) – Cyllideb 2024/25** | **Chwefror, 2024 (06/02/24) - Addysg** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2024/25 – refeniw a chyfalaf | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau Dysgu |
| | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2022/23 |
| | Cynllun Cydraddoldeb: 2023/2027 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Mawrth, 2024 (12/03/23) - Ch3** | **Mawrth, 2024 (13/03/24)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2023/24 | Adroddiad Cynnydd Ch3:2022/23 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Adroddiad Cynnydd Siwrnai Gwasanaethau Cymdeithasol | Rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2024/2054 | |
| Asesiad y Farchnad Dai Leol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Ebrill, 2024 (16/04/24)** | **Ebrill, 2024 (17/04/2024)** |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |

Tudalen 103

**Eitemau i'w rhaglennu**

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2021/31 – Ystad Mân-ddaliadau | Rhaglen Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd (Tachwedd, 2024 ac Ionawr, 2025) |
| Cyfrifiad 2021 | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| Trawsnewid a Moderneiddio Gwasanaethau Oedolion | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| | Medrwn Môn |
| | Craffu ar Bartneriaethau |
| | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – Adroddiad Blynyddol 2023/24 (Mehefin, 2024) |
| | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: Adroddiad Blynyddol 2023/24 (Mehefin, 2024) |

| | |
|---|---|
| | Gwella Dibynadwyedd a Gwytnwch ar draws y Fenai |
| | Porthladd Rhydd Ynys Môn |
| | Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn |
| | Effaith Twristiaeth ar Gymunedau Lleol Ynys Môn (penderfyniad gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 21/06/223) |
| | |